ERW

Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working
www.erw.cymru
www.erw.wales

# Ein Rhanbarth Ar Waith

## Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru

# Datganiad o Gyfrifon
# 2021-22

**Cynghrair o bedwar Awdurdod Lleol yw ERW, a reolir gan gyd-bwyllgor â chyfansoddiad cyfreithiol.**
**Ei nod yw gweithredu'r strategaeth a'r cynllun busnes rhanbarthol y cytunwyd arnynt er mwyn cefnogi gwelliant mewn ysgolion.**

ERW is an alliance of 4 local authorities governed by a legally constituted joint committee.
Its aim is to implement the agreed regional strategy and business plan to support school improvement.

Cyngor Abertawe Swansea Council
Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
Powys

| MYNEGAI | TUDALEN |
|---|---|
| **1-8 ADRODDIAD NARATIF – CRYNODEB O BERFFORMIAD ARIANNOL** | 3-11 |
| | |
| **9 TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD** | 12 |
| | |
| **DATGANIAD O GYFRIFON** | |
| **Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon** | 13-14 |
| **10. Datganiadau Ariannol Craidd – Egwyddorion Sylfaenol** | |
| 10.1 Safonau Adrodd Ariannol | 15 |
| 10.2 Cysyniadau Cyfrifyddu | 15 |
| 10.3 Dyfarniadau Beirniadol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu ac Amcangyfrif Risg | 16-17 |
| 10.4 Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu | 17-21 |
| **11. Datganiadau Ariannol Craidd – Elfennau a Manylion** | |
| 11.1 Dadansoddiad o Wariant a Chyllid | 21 |
| 11.2 Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 23 |
| 11.3 Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn | 24 |
| 11.4 Mantolen | 25 |
| 11.5 Datganiad Llif Arian | 26 |
| **12. Nodiadau i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid** | |
| 12.1 Nodiadau i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid | 27 |
| **13. Nodiadau i'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | |
| 13.1 Grantiau Refeniw | 28 |
| 13.2 Costau Pensiwn | 29-30 |
| 13.3 Costau Eithriadol | 30 |
| 13.4 Manylion Taliadau Cydnabyddiaeth | 30-31 |
| 13.5 Ffioedd Archwilio | 31 |
| 13.6 Partïon Cysylltiedig | 31-32 |
| **14. Nodiadau i'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn** | |
| 14.1 Addasiad rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido Reoleiddiol | 33 |
| 14.2 Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | 33 |
| 14.3 Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy | 34 |
| **15. Nodiadau i'r Fantolen** | |
| 15.1 Dyledwyr a Chredydwyr | 35-36 |
| 15.2 Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod | 36 |
| 15.3 Rhwymedigaethau Digwyddiadol | 36 |
| 15.4 Cronfa Bensiwn Wrth Gefn | 37 |
| **16. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd** | 37 |
| | |

## 1.0 Adroddiad Naratif

### 1.1 Cyflwyniad

Mae Datganiad o Gyfrifon ERW ar gyfer 2021-22 yn gofnod o sefyllfa ariannol y flwyddyn. Nod yr adran hon o'r adroddiad yw cyfathrebu pwrpas ERW, y modd y mae wedi perfformio yn unol â'i strategaeth gyffredinol a dangosyddion perfformiad yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r modd y mae wedi dyrannu ei adnoddau yn unol â'r canlyniadau arfaethedig. Mae'n arddangos perfformiad ar y cyd yn ystod y flwyddyn ac yn adrodd hanes ERW trwy ddarparu golwg cyfannol, clir a strwythuredig ar ei strategaeth, ei drefniadau llywodraethu, ei berfformiad a'i ddarfyddiad.

## 2.0 Trosolwg Sefydliadol

### 2.1 Ffeithiau Allweddol am ERW

Roedd ERW yn gynghrair o chwe awdurdod lleol, sef Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Dinas a Sir Abertawe. Gadawodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ERW ar 31 Mawrth 2020, er i ERW barhau i ddarparu rhai gwasanaethau iddo yn ystod 2020-21 a 2021-22.

Roedd ERW yn gynghrair o bum awdurdod lleol, sef Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys, a Chyngor Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2020-21. Gadawodd Cyngor Sir Ceredigion ERW ar 31 Mawrth 2021, felly ar gyfer 2021-22 daeth yn gynghrair o bedwar awdurdod lleol o 1 Ebrill 2021 hyd at 31 Awst 2021.

Rhagwelwyd y byddai ERW yn darfod ar 31 Awst 2021, ac y byddai partneriaeth newydd, 'Partneriaeth', o dri awdurdod lleol, sef Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro, a Chyngor Dinas a Sir Abertawe, yn cychwyn o 1 Medi 2021 ac iddi gytundeb cyfreithiol newydd. Fodd bynnag, oherwydd oedi wrth bennu'r strwythur staffio ar gyfer y bartneriaeth newydd a'r amserlenni ar gyfer cynnal y prosesau ymgynghori ac adnoddau dynol cysylltiedig, parhaodd ERW i weithredu, gan ddarfod ar ddiwedd 2021-22. Er i Gyngor Sir Powys barhau i fod yn rhan o ERW tan 31 Awst 2021, nid yw wedi cael unrhyw wasanaethu oddi ar 1 Medi 2021. Dechreuodd y 'Partneriaeth' newydd ar 1 Ebrill 2022, gyda chytundeb cyfreithiol newydd ar waith ar gyfer y tri awdurdod lleol partner. Deellir y bydd yr awdurdodau lleol eraill yn gwneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer y dyfodol.

Llywodraethir ERW gan Gyd-bwyllgor sydd â chyfansoddiad cyfreithiol, ac mae'n darparu un gwasanaeth effeithiolrwydd ysgolion proffesiynol, rhanbarthol, integredig, sy'n ysgogi gwelliant yn yr ysgol a chyflawniad y dysgwyr ledled yr ardal gyfunol yn rhanbarth De-orllewin a Chanolbarth Cymru.

### 2.2 Y Cyd-bwyllgor

Mae'r Cyd-bwyllgor yn cynnwys Arweinydd pob awdurdod lleol, yn cael ei gefnogi gan Brif Weithredwr pob awdurdod lleol, ac yn cael cyngor gan y Bwrdd Gweithredol, y Cyfarwyddwr Addysg Arweiniol, Prif Swyddogion ERW, Swyddogion Statudol, arbenigwyr allanol ar wella ysgolion, a chynrychiolwyr Penaethiaid. Mae Llywodraeth Cymru, Estyn a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn mynychu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru yn adrodd yn annibynnol i'r Cyd-bwyllgor. Roedd y Cyd-bwyllgor yn cael ei gadeirio gan y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystod 2021-22.

### 2.3 Y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys Cyfarwyddwyr Addysg pob un o'r awdurdodau lleol, Prif Swyddogion ERW, cynrychiolwyr Penaethiaid, y Swyddog Adran 151/y Dirprwy Swyddog Adran 151 (lle bo hynny'n berthnasol) ac aelodau allanol (lle bo hynny'n berthnasol).

## 2.4 Y Strwythur Rheoli

- **Y Prif Weithredwr Arweiniol** – Phil Roberts (Prif Weithredwr, Abertawe)
- **Y Cyfarwyddwr Addysg Arweiniol** – Gareth Morgans (Cyfarwyddwr Addysg, Sir Gaerfyrddin)
- **Prif Swyddog Dros Dro** – Ian Altman
- **Prif Swyddog Dros Dro** – Greg Morgan
- **Swyddog A151** – Jon Haswell (Cyfarwyddwr Adnoddau, Sir Benfro)
- **Swyddog Monitro** – Tracey Meredith (Prif Swyddog Cyfreithiol a Swyddog monitro, Abertawe)

## 2.5 Gwerthoedd ERW

Mae ERW yn un o bedwar consortiwm addysg rhanbarthol yng Nghymru. Ei fwriad yw darparu un gwasanaeth gwella ysgolion cyson, integredig a phroffesiynol ledled yr awdurdodau lleol perthynol.

Mae'r model cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion yng Nghymru wedi'i seilio ar weledigaeth o gonsortia rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion yn gweithio ar ran awdurdodau lleol i arwain a chydlynu'r gwelliant ym mherfformiad ysgolion ac yn addysg pobl ifanc.

I gyflawni gweledigaeth ERW, mae ERW wedi diffinio gwerthoedd i arwain popeth y mae'n ei wneud. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiolrwydd; ymrwymiad; uniondeb; arloesedd a chydweithredu.

Mae ERW yn defnyddio ystod eang o ddulliau hyblyg fel y gellir rhoi atebion pwrpasol ar waith i gefnogi ysgolion pan fydd arnynt eu hangen. Mae ERW yn cefnogi athrawon trwy ddarparu a threfnu rhaglenni dysgu proffesiynol i gefnogi unigolion ar eu taith tuag at arweinyddiaeth, gan feithrin arbenigedd a gallu, lle bo angen, mewn ysgolion ledled y rhanbarth.

## 2.6 Nodau ERW

Mae gan ERW bum nod:

1. Gwella ansawdd yr **arweinyddiaeth** a'i heffaith ar ddeilliannau.
2. Gwella ansawdd y **profiadau addysgu a dysgu** a'u heffaith ar ddeilliannau.
3. Lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad, cefnogi dysgwyr agored i niwed, a **sicrhau bod pob dysgwr yn gwireddu ei botensial**.
4. Darparu ymyrraeth, her a **chymorth pwrpasol ac o ansawdd uchel** i ysgolion.
5. **Cyfathrebu** mewn modd effeithiol â'r holl randdeiliaid.

## 2.7 Ffynonellau Cyllid

Mae ERW yn cael ei gyllido gan ddwy brif ffynhonnell – cyfraniad blynyddol gan bob un o'r Awdurdodau Lleol, a grant gan Lywodraeth Cymru.

Yn ystod 2021-22 talwyd cyllid grant a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol i'r Awdurdodau Lleol, gydag elfen ERW o'r cyllid yn cael ei throsglwyddo i ERW o'r Awdurdodau Lleol (mewn blynyddoedd blaenorol, talwyd cyllid grant a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol i ERW).

## 3.0 Llywodraethu

### 3.1 Y Cod Llywodraethu Corfforaethol

Cymeradwywyd Cod Llywodraethu Corfforaethol ERW gan y Cyd-bwyllgor ar 16 Gorffennaf 2018.

### 3.2 Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol ERW yn darparu trosolwg o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ERW yn ystod 2021-22. Mae'n amlygu materion llywodraethu o bwys a blaenoriaethau gwella, y bydd Partneriaeth yn mynd i'r afael â nhw yn 2022-23.

Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2021-22 yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan Gyd-bwyllgor ERW, ynghyd â Datganiad o Gyfrifon ERW ar gyfer 2021-22. Yn dilyn hynny, bydd y materion llywodraethu o bwys a'r blaenoriaethau gwella yn cael eu hadrodd i Partneriaeth.

## 4.0 Model Gweithredol

### 4.1 Cynllun Busnes ERW

Cymeradwywyd Cynllun Busnes ERW ar gyfer 2021-22 gan y Cyd-bwyllgor ar 13 Mawrth 2021. Roedd y cynllun busnes yn wreiddiol ar gyfer mis Ebrill i fis Awst 2021, pan ddylai ERW fod wedi rhoi'r gorau i weithredu, ond parhaodd hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2021-22. Roedd y Cynllun Busnes yn nodi pum blaenoriaeth gwella sy'n cyfateb i amcanion galluogi Cenhadaeth ein Cenedl, ac sydd hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol a rhanbarthol:

- Datblygu a chyflwyno cwricwlwm trawsnewidiol;
- Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel;
- Creu arweinwyr ysbrydoledig, a'u hwyluso i gydweithredu er mwyn codi safonau;
- Creu ysgolion cryf a chynhwysol, sydd wedi ymrwymo i gydraddoldeb a llesiant;
- Datblygu prosesau cadarn o ran asesu, gwerthuso ac atebolrwydd, i gefnogi system sy'n hunanwella.

Datblygwyd Cynllun Busnes ERW ar gyfer 2021-22 trwy ddefnyddio canlyniadau hunanwerthuso, canfyddiadau ymchwil a chynllunio traws-gonsortia, yn ogystal â thrwy nodi blaenoriaethau ysgolion ac awdurdodau lleol, a blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol. Cyn cyhoeddi'r cynllun, ymgynghorwyd yn helaeth ag amrediad eang o randdeiliaid yn ystod y broses o'i ddatblygu, ac roeddent hefyd wedi cyfrannu ato.

- Penaethiaid;
- Y Cyfarwyddwyr Addysg
- Cyd-bwyllgor ERW a'r Bwrdd Gweithredol
- Tîm Canolog ERW
- Y Bwrdd Cyfeirio Penaethiaid
- Grwpiau Strategaeth ERW

### 4.2 Fframwaith Rheoli Perfformiad

Cyngor Sir Penfro yw'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am gyflogi ar ran ERW, a chaiff ei Fframwaith Rheoli Perfformiad, dyddiedig Gorffennaf 2019, ei ddefnyddio. Mae'r fframwaith hwn yn galluogi'r holl staff sy'n gweithio i ERW i nodi'r modd y mae eu gwaith yn cyfrannu at gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. Mae hyn yn cael ei gyflawni trwy gasglu a chyhoeddi hierarchaeth o gynlluniau wedi'u cysoni. Mae'r cynlluniau lefel uchaf yn disgrifio amcanion ERW, yn pennu'r cyfeiriad strategol ac yn rhoi ystyriaeth hirdymor ar waith. Mewn cyferbyniad, mae cynlluniau adolygu perfformiad swyddogion unigol yn cael eu hadolygu'n flynyddol, ac, mewn sawl achos, ddwywaith y flwyddyn. Cyfeirir yn aml at y cysylltiad rhwng y cynlluniau hyn fel y "Llinyn Aur".

## 5.0 Risgiau a Chyfleoedd

### 5.1 Rheoli Risgiau Busnes

Mae'r Aelodau a'r Swyddogion yn gyfrifol am sicrhau bod risg yn cael ei hystyried yn rhan o'r penderfyniadau a wneir ganddynt, a bod trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith i reoli risg. Mae gan y Cyd-bwyllgor gyfrifoldeb dros oruchwylio trefniadau ERW ar gyfer Rheoli Risgiau Busnes.

Mae cofrestr risgiau corfforaethol ERW yn nodi'r risgiau (bygythiadau) o ran cyflawni nodau ERW. Gan ei bod yn ddogfen fyw, mae'n cael ei hadolygu a'i diweddaru'n barhaus, ac fe'i hadolygwyd yn ffurfiol ddiwethaf gan y Cyd-bwyllgor ar 8 Gorffennaf 2021. Nodir sgorau gweddillol y risg isod:

| Risg | Sgorau Gweddilliol y Risg |
|---|---|
| Llywodraethu ERW | 12 |
| Toriadau i Gyllidebau Ysgolion | 12 |
| Proses Fonitro Estyn ar gyfer Sir Benfro yn arwain at gamau dilynol | 8 |
| Proses Fonitro Estyn ar gyfer Powys yn arwain at gamau dilynol | 8 |
| Peidio â Chydymffurfio â Chynllun Gweithredu Estyn | 8 |
| Ariannu costau cyfredol neu gostau yn y dyfodol o ganlyniad i bartneriaid yn gadael consortiwm ERW | 8 |
| Yr ALl yn methu cydymffurfio â Rheoliadau Grantiau | 6 |
| Diogelu Data | 6 |
| Canfod nad yw ERW yn rhoi Gwerth am Arian | 6 |
| Peidio ag ymateb i gymwysterau 2021 | 6 |
| Amseroldeb Cyllid Llywodraeth Cymru | 6 |
| Cyflawni Cenhadaeth ein Cenedl | 6 |
| Tryloywder Llywodraethu | 6 |
| Effaith COVID-19 | 6 |
| Proses Fonitro Estyn ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn arwain at gamau dilynol | 4 |
| Proses Fonitro Estyn ar gyfer Ceredigion yn arwain at gamau dilynol | 4 |
| Proses Fonitro Estyn ar gyfer Abertawe yn arwain at gamau dilynol | 4 |
| Arbedion o ran Costau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru | 4 |
| Diffyg eglurder swyddogaethau | 4 |
| Diffyg cyfathrebu | 4 |
| Peidio â Chyflawni'r Cynllun Busnes | 4 |

### 5.2 Risgiau Ariannol Allweddol ar gyfer 2022-23 a Thu Hwnt

Daeth ERW i ben ar 31 Mawrth 2022, felly ni phennwyd cyllideb ar gyfer ERW mewn perthynas â 2022-23.

- Dilëwyd dwy swydd o ganlyniad i ddarfodiad ERW, a thalwyd costau'r diswyddiadau hyn o gyllidebau ERW a oedd yn bodoli.
- Bydd yn rhaid i gronfeydd wrth gefn ERW a balansau Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a oedd yn weddill pan ddaethpwyd ag ERW i ben, gael eu dosbarthu i'r Awdurdodau Lleol sy'n weddill, yn unol â Chyd-gytundeb ERW.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fydd yn adfachu'r cyllid grant a gafwyd yn ystod 2020-21 a 2021-22, ac nad oedd wedi cael ei wario erbyn 31 Mawrth 2022. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddosbarthu i'r Awdurdodau Lleol sy'n weddill yn ystod 2022-23. Efallai y bydd yna gostau annisgwyl eraill yn ymwneud â darfodiad ERW, na fyddant yn hysbys hyd nes y bydd y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2021-22 wedi cael ei archwilio gan Archwilio Cymru a'i gymeradwyo gan Gyd-bwyllgor ERW.
- Rhagwelir y bydd balans gweithio a chronfeydd wrth gefn ar gyfer Partneriaeth yn cael eu creu ar ôl i ERW ddod i ben, gan ddefnyddio balansau wrth gefn ERW a CGA.
- Roedd dibyniaeth barhaus ar gyllid grant yn risg i ERW, a bydd hyn yn parhau i fod yn risg i Partneriaeth.

## 6.0 Strategaeth a Dyrannu Adnoddau

### 6.1 Dyraniadau Grant

`

Cafodd yr RCSIG ei ddyrannu gan yr Awdurdodau Lleol yn unol â'r Blaenoriaethau Gweinidogol Cenedlaethol. Cafodd cyllid grant RCSIG a drosglwyddwyd o'r Awdurdodau Lleol ei ddyrannu yn unol â blaenoriaethau Cynllun Busnes ERW ar gyfer 2021-22 i gyd-fynd â Grwpiau Strategaeth ERW:

- Y Cwricwlwm
- Dysgu Proffesiynol
- Arweinyddiaeth
- Y Gymraeg
- Digidol
- Tegwch a Llesiant

Cedwir yn ofalus at delerau ac amodau'r grant a, lle bo hynny'n bosibl, gwneir cysylltiadau clir rhwng grantiau er mwyn galluogi gwell gwerth am arian wrth gynllunio gwariant. Mae diweddariad yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Cyllid a ddarperir i'r Cyd-bwyllgor ymhob cyfarfod.

### 6.2 Cyllid Grant Llywodraeth Cymru

Amlinellir yr amrywiaeth o grantiau Llywodraeth Cymru a ddaeth i law yn ystod 2021-22 yn Nodyn 13.1.

## 7.0 Perfformiad

### 7.1 Adrodd ar Berfformiad

Adroddir ar berfformiad rhanbarthol sy'n ymwneud â chanlyniadau arholiadau a chynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Busnes i'r Cyd-bwyllgor.

### 7.2 Adrodd Ariannol

Fel arfer, mae'r Cyd-bwyllgor yn cael Adroddiad Diweddaru Ariannol gan y Swyddog A151 ymhob un o'i gyfarfodydd.

### 7.3 Crynodeb o Berfformiad Ariannol

Mae'r crynodeb o berfformiad ariannol yn rhoi trosolwg lefel uchel o sefyllfa ariannol ERW ar 31 Mawrth 2022. Yn y paragraffau canlynol, caiff yr alldro terfynol ar gyfer 2021-22 ei gymharu â'r amcangyfrif Blwyddyn Gron Diwygiedig y cytunwyd arno gan Gyd-bwyllgor ERW ar 29 Ebrill 2022.

## 7.4 Gwariant Refeniw

| Y Tîm Canolog | Amcangyfrif Blwyddyn Gron Diwygiedig 2021-22 £000 | Gwirioneddol 2021-22** | | | Gwariant Gwirioneddol 2020-21 * £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Y Tîm Canolog | Grantiau | Cyfanswm | |
| **Gwariant Gros** | | | | | |
| Cyflogeion* | 2,791 | 143 | 2,384 | **2,527** | 3,109 |
| Adeiladau | 51 | 66 | 12 | **78** | 63 |
| Cludiant | 7 | 0 | 1 | **1** | 5 |
| Cyfieithu | 34 | 4 | 16 | **20** | 34 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 14 | 12 | 2 | **14** | 32 |
| Ymgynghori | 27 | 48 | 424 | **472** | 439 |
| Gwasanaethau Cymorth | 149 | 160 | 0 | **160** | 139 |
| Taliadau i ysgolion trwy'r ALlau ar gyfer gwaith penodol* | 1,314 | 0 | 1,321 | **1,321** | 2,311 |
| Hwyluso | 0 | 0 | 0 | **0** | 16 |
| Grantiau a Drosglwyddwyd i ALlau | 0 | 0 | 0 | **0** | 50,323 |
| **Cyfanswm y Gwariant Gros** | **4,387** | **433** | **4,160** | **4,593** | **56,471** |
| **Incwm** | | | | | |
| Cyfraniadau gan Aelod-awdurdodau | (389) | (388) | 0 | **(388)** | (480) |
| Grant Llywodraeth Cymru* | (3,998) | 0 | (4,067) | **(4,067)** | (55,751) |
| Incwm Grant Arall | 0 | 0 | (1,049) | **(1,049)** | (302) |
| Incwm Amrywiol | 0 | 0 | (2) | **(2)** | (208) |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **(4,387)** | **(388)** | **(5,118)** | **(5,506)** | **(56,741)** |
| **Gwarged Net** | 0 | 45 | (958) | **(913)** | (270) |
| Dyraniad o'r / i'rGronfa Wrth Gefn | 0 | (45) | 958 | **913** | 270 |

***Addasiad y Flwyddyn Flaenorol mewn perthynas â £27k gor-gronni gwariant yn 2020-21
****Dylid nodi bod yr incwm a'r gwariant gwirioneddol a ddangosir wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r cofnodion cyfrifyddu terfynol, ac felly eu bod yn wahanol i'r hyn a adroddwyd i Gyd-bwyllgor ERW ar 29 Ebrill 2022.

### Sylwadau ar Berfformiad Refeniw 2021-22

Roedd cyfanswm gwariant gros Consortiwm ERW ar gyfer 2021-22 yn £4.6 miliwn. Roedd eleni yn unigryw oherwydd bod cyllid grant Llywodraeth Cymru wedi mynd yn uniongyrchol i'r Awdurdodau Lleol a bod yr incwm wedi cael ei drosglwyddo i ERW gan yr Awdurdodau Lleol a oedd yn weddill (mewn blynyddoedd blaenorol talwyd cyllid grant Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol i ERW).

Cafodd Cyd-bwyllgor ERW a'r Bwrdd Gweithredol ddau adroddiad monitro cyllideb a diweddariad ariannol ar 8 Gorffennaf 2021 a 29 Ebrill 2022, a rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf iddynt am adnoddau grant ychwanegol wrth iddynt ddod ar gael. Mae holl adroddiadau'r Cyd-bwyllgor i'w gweld ar wefan Sir Gaerfyrddin: https://democracy.carmarthenshire.gov.wales/mgCommitteeDetails.aspx?ID=376

Anfonebwyd yr Awdurdodau Lleol am eu cyfraniadau ar gyfer 2021-22, a oedd yn werth £386 mil. Yn wahanol i gonsortia eraill, nid yw ERW yn cyflogi Ymgynghorwyr Her Gwella Ysgolion yn uniongyrchol. Cânt eu cyflogi gan bob Awdurdod Lleol, ac maent yn cydweithio ledled y rhanbarth cyfan, fel y bo angen, i ddarparu gwasanaeth effeithiol. Felly, dim ond Tîm Canolog gweinyddol bach y mae ERW yn ei gyflogi'n uniongyrchol, ac mae'r tîm hwn yn cefnogi'r Prif Swyddogion.

Rhannwyd y cyfraniadau at gostau'r Tîm Canolog rhwng y pedwar Awdurdod Lleol ar sail niferoedd y disgyblion ar gyfer CYBLD 20. Roedd y dyraniad gan Gyngor Sir Powys ar sail 5/12 hyd at fis Awst 2021.

| **Awdurdod Lleol** | **% y Disgyblion yn y Rhanbarth** | **Cyfraniad** |
|---|---|---|
| Powys | 8.78% | £34,139 |
| Sir Benfro | 20.55% | £79,898 |
| Sir Gaerfyrddin | 31.89% | £123,998 |
| Abertawe | 38.78% | £150,785 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **£388,820** |

Rhagwelir y bydd y canrannau hyn yn cael eu defnyddio i ddyrannu cronfeydd wrth gefn ERW neu falansau CGA i'r pedwar Awdurdod Lleol sy'n weddill.

## 7.5 Rhagolygon ar gyfer y Dyfodol – Partneriaeth

### 7.5.1 Sefyllfa Gyllido

Daeth ERW i ben ar 31 Mawrth 2022. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd Partneriaeth yn disodli ERW, ac y bydd unrhyw gyllid ar gyfer 2022-21 yn cael ei drosglwyddo i'r endid newydd hwn o 1 Ebrill 2022 ymlaen.

### 7.5.2 Asedau a Rhwymedigaethau

Bydd Partneriaeth yn ysgwyddo cyfrifoldeb am unrhyw rai o asedau neu gostau cynnal parhaus ERW, a bydd rhwymedigaeth pensiwn ERW yn cael ei throsglwyddo i Gyngor Sir Penfro, sef yr Awdurdod Lleol sy'n cyflogi.

Roedd cyfanswm dyledwyr ERW yn werth £4.0 miliwn, ar gyfer cyllid grant a oedd yn ddyledus gan Awdurdodau Lleol a thalu anfonebau secondiad. Ni nodwyd unrhyw faterion mewn perthynas â lleihad yng ngwerth unrhyw asedau cyfredol eraill.

Ni nodwyd unrhyw faterion mewn perthynas â setlo rhwymedigaethau cyfredol. Ni ddisgwylir fod yna unrhyw ymrwymiadau na rhwymedigaethau nas cyllidebwyd ar eu cyfer yn deillio o 2021-22 na all ERW eu talu o'i gronfeydd wrth gefn.

### 7.5.3 Rhwymedigaeth Pensiynau

Roedd ERW yn rhan o ddau gynllun pensiwn – Cronfa Bensiwn Dyfed a'r Gronfa Bensiwn Athrawon.

Mae **Cynllun Pensiwn Dyfed**, a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, yn gynllun diffiniedig a ariennir, y mae cyflogeion a Chyd-bwyllgor ERW, yn ei rôl o fod yn gyflogwr, yn talu cyfraniadau iddo. Mae'r cynllun yn gweithredu'n unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Phensiynau Llywodraeth Leol.

Cafodd cyfradd cyfraniadau gyfansawdd y cyflogwr, a ddefnyddiwyd yn 2021-22, ei chyfrifo gan actiwari'r Gronfa yn seiliedig ar y prisiad ar 31 Mawrth 2019 ar gyfer holl gyflogeion ERW sy'n aelodau o'r cynllun.

Prisiwyd y Gronfa ar 31 Mawrth 2019. Mae canlyniadau'r prisiad hwn wedi'u hadlewyrchu yng Nghyfrifon 2021-22.

Mae Cronfa Dyfed wedi gweld cynnydd cyffredinol yn ei diffyg net. Roedd gan Gyngor Sir Penfro rwymedigaeth pensiwn gwerth £234 miliwn, fel y'i cofnodwyd ar 31 Mawrth 2022 (a hynny o gymharu â £265 miliwn ar 31 Mawrth 2021). Mae cyfran y rhwymedigaeth pensiwn sy'n ymwneud ag ERW wedi cynyddu i £0.641 miliwn ar 31 Mawrth 2022 (o gymharu â £0.613 miliwn ar 31 Mawrth 2021), gyda'r gweddill yn ymwneud â Chyngor Sir Penfro. Ni ragwelir bod yna unrhyw achos pryder ar hyn o bryd, gan fod y rhagdybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd i gyfrifo sefyllfa'r fantolen yn gymhleth, sy'n golygu y gallai'r taliadau gwirioneddol fod yn wahanol. Bydd y sefyllfa'n cael ei hadfer yn y tymor hwy a bydd y Gronfa'n gallu cyflawni ei hymrwymiadau.

**Goblygiadau a Risgiau**

Yn ystod 2017, cyflwynwyd system o gofrestru staff yn awtomatig ar gyfer y Cynllun.

Sefydlwyd Cronfa Fuddsoddi Pensiynau Cymru Gyfan o ganlyniad i gytundeb Cenedlaethol y Deyrnas Unedig ag Adran y Trysorlys er mwyn cynyddu maint y cronfeydd buddsoddi a lleihau costau gweinyddu. Gweinyddir y gronfa hon gan Gyngor Sir Caerfyrddin, a daeth i rym ym mis Ebrill 2018. Bydd y gronfa newydd

yn gyfrifol am fuddsoddi cyllid yr wyth cronfa bensiwn Llywodraeth Leol gyfredol. Bydd pob cronfa bensiwn gyfredol sy'n rhan o Gronfa Fuddsoddi Cymru Gyfan yn parhau i allu pennu ei meini prawf a'i strategaethau buddsoddi ei hun.

Mae'r prif risgiau sy'n wynebu Cyd-bwyllgor ERW yn ymwneud â'r canlynol:

- Nifer cyffredinol y cyfranwyr at y gronfa, o gymharu â nifer y pensiynwyr, yn lleihau'n sylweddol, gan arwain at gyfraddau uwch yng nghyfraniadau cyflogwyr.

- Unrhyw gynnydd canlyniadol yng nghyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn sgil y diwygiadau parhaus a amlinellir uchod neu berfformiad economaidd gwael buddsoddiadau Cronfa Dyfed.

Gan mai nifer bach o gyflogeion a gyflogir gan ERW, mae'r risg i ERW yn fach yn hyn o beth.

Bydd unrhyw rwymedigaeth pensiwn cyfredol yn parhau gyda Chyngor Sir Penfro yn dilyn darfodiad ERW; felly, ni fydd unrhyw addasiadau i'r pensiwn yn cael eu dangos yn Natganiad o Gyfrifon Partneriaeth.

**Cynllun Pensiwn Athrawon**

Gweinyddir y cynllun gan yr Adran Addysg yng Nghymru a Lloegr. Ni chaiff y cynllun hwn ei gyllido. Mae hyn yn golygu nad oes yna asedau wedi eu buddsoddi sydd wedi cronni i dalu costau'r pensiwn cyn iddynt godi, ac felly ni fydd unrhyw asedau na rhwymedigaethau cyllido yn ymddangos ym Mantolen Cyd-bwyllgor ERW.

Cyngor Sir Penfro sy'n gyfrifol am gostau unrhyw fudd-daliadau ychwanegol a ddyrennir pan fydd unigolyn yn ymddeol yn gynnar y tu hwnt i delerau'r cynllun athrawon.

**Goblygiadau a Risgiau**

Cyflwynodd y Llywodraeth ddiwygiadau i bensiynau Athrawon o fis Ebrill 2015 ymlaen. Yn y dyfodol, bydd pensiynau yn seiliedig ar gyfartaledd gyrfa yn hytrach na chyflog terfynol.

Mae'r brif risg sy'n wynebu Cyd-bwyllgor ERW yn ymwneud â'r cynnydd canlyniadol yng nghyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn sgil cymarebau cyfrannwr/pensiynwr is ac â'r diwygiadau a amlinellir uchod.

Bydd unrhyw rwymedigaeth pensiwn cyfredol yn parhau gyda Chyngor Sir Penfro yn dilyn darfodiad ERW; felly, ni fydd unrhyw addasiadau i'r pensiwn yn cael eu dangos yn Natganiad o Gyfrifon Partneriaeth.

### 7.5.4 Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy a Balansau

**Y Gronfa Weithio Wrth Gefn Gyffredinol**

Mae'r gronfa wrth gefn hon yn cynnwys balans gweithio ERW, a chaiff ei chynnal i dalu am ddigwyddiadau gweithredol posibl o ddydd i ddydd. Cafodd ei chreu yn 2016-17 er mwyn darparu lefel ddigonol o gyllid i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl. Roedd balans y gronfa wrth gefn hon yn £100 mil ar ddiwedd 2021-22.

**Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi**

Mae'r rhain yn cynnwys balansau a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn at ddibenion penodol, a chânt eu defnyddio yn unol â'r gofynion penodol hynny. Roedd balans y cronfeydd wrth gefn hyn yn £577 mil ar ddiwedd 2021-22.

**Cyllid Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) Nas Defnyddiwyd**

Roedd CGA yn darparu cyllid grant i ERW yn flynyddol i dalu am hyfforddiant. Pan fo cost darparu'r hyfforddiant yn llai na'r grant blynyddol, mae CGA wedi nodi nad yw'n gofyn am i'r grant gael ei ad-dalu, ac mae balans wedi cronni. Roedd yna falans o £958 mil ddiwedd 2021-22.

**Trosglwyddo Cronfeydd wrth Gefn a Balans GCA wrth ddod ag ERW i ben**

Rhagwelir y bydd balans gweithio a chronfeydd wrth gefn ar gyfer Partneriaeth yn cael eu creu yn dilyn darfodiad ERW, gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn ERW a balansau Cyngor y Gweithlu Addysg. Bydd unrhyw gronfeydd wrth gefn neu falansau sy'n weddill yn cael eu dosbarthu i'r Awdurdodau Lleol sy'n weddill, yn unol â Chytundeb Cyd-bwyllgor ERW.

### 7.5.5 Taliadau i Archwilwyr

Amcangyfrifir y bydd £16 mil yn cael ei dalu i Archwilio Cymru am y gwaith o archwilio datganiadau ariannol 2021-22. Bydd yr holl waith o ardystio grantiau yn destun Archwiliad Mewnol, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

## 8.0 Sail Paratoi a Chyflwyno

Mae unrhyw faterion a allai fod wedi effeithio ar allu ERW i gyflawni ei Gynllun Busnes wedi'u nodi yng nghorff yr Adroddiad Naratif hwn.

**Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth am Ddatganiad o Gyfrifon ERW, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Adnoddau, Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP. Mae Datganiad o Gyfrifon ERW hefyd ar gael ar wefan ERW.**

**Jonathan Haswell FCCA**
**Cyfarwyddwr Adnoddau a Swyddog A151 ERW**
**17 Mai 2023**

## 9.0 Adroddiad Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyd-bwyllgor Ein Rhanbarth ar Waith

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. ERW sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

**Adrian Crompton**
**Ar gyfer ac ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**25 Mai 2023**

1 Chwarter y Brifddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

**DATGANIAD O GYFRIFON**

**CYD-BWYLLGOR ERW**

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD**

**Cyfrifoldebau Cyd-bwyllgor ERW**

Mae'n ofynnol i Gyd-bwyllgor ERW wneud y canlynol:

- Gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn achos y Cyd-bwyllgor dan sylw, Cyfarwyddwr Adnoddau Cyngor Sir Penfro yw'r swyddog hwnnw.
- Rheoli ei faterion i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

**Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Adnoddau**

Y Cyfarwyddwr Adnoddau sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon y Cyd-bwyllgor yn unol â'r arferion priodol a amlinellir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau wedi gwneud y canlynol:
- Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a doeth;
- Cydymffurfio â'r Cod.

Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau hefyd wedi:
- Cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a chyfredol;
- Cymryd camau rhesymol i atal a datgelu twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

**TYSTYSGRIF Y CYFARWYDDWR ADNODDAU**

Mae Datganiad o Gyfrifon Cyd-bwyllgor ERW ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 wedi cael ei gynnwys yn Adrannau 10 i 15, ac fe'i lluniwyd yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio Llywodraeth Leol (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd). Mae'r Rheoliadau yn rhagnodi cynnwys y Datganiad o Gyfrifon, a dim ond ar sail y cynnwys y caiff y farn Archwilio ei mynegi.

Rwy'n cadarnhau bod y cyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor ERW ar 31 Mawrth 2022, ynghyd â'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, ac rwy'n llofnodi'r Datganiad yn unol â Rheoliad 10(1).



**J HASWELL FCCA**

**Cyfarwyddwr Adnoddau a Swyddog A151 ERW**

**Dyddiad: 17 Mai 2023**

**ADRODD A CHYMERADWYO**

Cyflwynir y cyfrifon hyn, a gyhoeddwyd gyntaf ar 12 Rhagfyr 2022, i Gyd-bwyllgor ERW, i'w cymeradwyo wedi i'r Archwiliad Blynyddol gael ei gwblhau ar 3 Chwefror 2023. Dangosir y dystysgrif archwilio ar dudalennau 12.

**Cadeirydd Cyd-bwyllgor ERW**

**Cyfeiriad y Swyddfa:** Y Llwyfan,
Heol y Coleg,
Caerfyrddin,
SA31 3EQ

**Dyddiad:** 17 Mai 2023

## 10 Datganiadau Ariannol Craidd – Egwyddorion Sylfaenol

Nodir y safonau cyfrifyddu, y cysyniadau, y dyfarniadau beirniadol a'r risgiau cynhenid, ynghyd â'r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol craidd, ar y tudalennau canlynol.

### 10.1 Safonau Adrodd Ariannol

Mae'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, a Safonau Eraill a gyhoeddwyd, wedi eu cymhwyso'n unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol.

Mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor ddatgelu gwybodaeth am effaith newid cyfrifyddol, a fydd yn ofynnol o dan safon newydd sydd wedi ei chyhoeddi ond heb ei mabwysiadu eto gan y Cod ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol. Nid oes yna'r un newid allweddol i'r safonau cyfrifyddu wedi ei gyhoeddi ond heb ei fabwysiadu eto a fydd yn effeithio ar y Cyd-bwyllgor.

Paratowyd y Datganiad o Gyfrifon, a amlinellir ar dudalennau 11 i 15, yn unol â Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2021-22.

### 10.2 Cysyniadau Cyfrifyddu

Defnyddiwyd y cysyniadau cyfrifyddu penodol canlynol wrth baratoi'r Datganiadau Cyfrifyddu Craidd:

- Sail croniadau
- Busnes Byw

Mae nodweddion ansoddol gwybodaeth ariannol yn parhau i gael eu defnyddio:

- Arwyddocâd
- Cymaroldeb
- Natur wiriadwy
- Amseroldeb
- Eglurder
- Perthnasedd
- Cynrychiolaeth Gywir
- Cyflawnder, Niwtraliaeth, Heb Wallau
- Goruchafiaeth gofynion deddfwriaethol

## 10.3 Dyfarniadau beirniadol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu ac Amcangyfrif Risg

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu a amlinellir isod yn adran 10.4, mae Cyd-bwyllgor ERW wedi gwneud dyfarniadau ynghylch y trafodiadau cymhleth ar gyfer 2021-22, ac mae Cyd-bwyllgor Partneriaeth wedi gwneud dyfarniadau ynghylch y trafodiadau cymhleth a'r rheiny sy'n ymwneud ag ansicrwydd mewn blynyddoedd i ddod.

Rhagwelwyd y byddai ERW yn darfod ar 31 Awst 2021, ac y byddai partneriaeth newydd, 'Partneriaeth', o dri awdurdod lleol, sef Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro, a Chyngor Dinas a Sir Abertawe, yn cychwyn o 1 Medi 2021 ac iddi gytundeb cyfreithiol newydd. Fodd bynnag, oherwydd oedi wrth bennu'r strwythur staffio ar gyfer y bartneriaeth newydd a'r amserlenni ar gyfer cynnal y prosesau ymgynghori ac adnoddau dynol cysylltiedig, parhaodd ERW i weithredu, gan ddarfod ar ddiwedd 2021-22. Er i Gyngor Sir Powys barhau i fod yn rhan o ERW tan 31 Awst 2021, nid yw wedi cael unrhyw wasanaethu oddi ar 1 Medi 2021. Dechreuodd y 'Partneriaeth' newydd ar 1 Ebrill 2022, gyda chytundeb cyfreithiol newydd ar waith ar gyfer y tri awdurdod lleol partner. Deellir y bydd yr awdurdodau lleol eraill yn gwneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer y dyfodol.

Cyngor Sir Penfro yw'r corff cyflogi ar gyfer staff ERW, ac mae'n cynnal cyllid/cyfrifon ERW gan ddarparu gwasanaethau ariannol, trefniadau archwilio mewnol, a chymorth mewn perthynas â TGCh, adnoddau dynol a chaffael i ERW trwy gytundebau lefel gwasanaeth. Bydd Cyngor Sir Penfro yn cadw'r rolau hyn gyda Partneriaeth.

Mewn achosion penodol, bu'n rhaid amcangyfrif y newidiadau a wnaed yn y cyfrifon trwy ddefnyddio profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol, ac ati. Gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i'r tybiaethau a wneir ac, o ganlyniad, gallent effeithio ar y taliadau a godir yng nghyfrifon y blynyddoedd i ddod. Lle bo newidiadau'n bodoli rhwng symiau a amcangyfrifwyd a symiau gwirioneddol, bydd y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yng nghyfrifon Partneriaeth, ac yn cael eu hariannu o unrhyw arian sy'n weddill yn y gronfa wrth gefn a drosglwyddir; ni ragwelir y bydd y rhain yn berthnasol.

Nodir y prif feysydd risg yn y tabl canlynol:

| **Materion sy'n ymwneud ag eitemau yn y set gyfredol o gyfrifon:** | | |
|---|---|---|
| **Eitem** | **Risg** | **Effaith Bosibl** |
| Rhwymedigaethau Contractiol | Meintoliadau anghywir a her gyfreithiol | Cost ychwanegol i'r Cyd-bwyllgor a'i Awdurdodau Partner |
| Cyllid Grant | Gwariant anghymwys a hawliwyd | Colli grant gyda'r gwariant i gael ei ariannu trwy adfachu craidd neu adfachu grantiau |
| Rhwymedigaeth Pensiwn | Tybiaethau actiwaraidd anghywir | Cynnydd yng Nghyfraniadau Cyflogwyr yn y dyfodol ar gyfer Partneriaeth |
| Cadarnhad o'r sefyllfa ranbarthol yn fecanwaith cyflawni ar gyfer gwella ysgolion | Cyllid gan Lywodraeth Cymru a disgwyliadau dilynol | Anallu i ymateb i ddisgwyliadau cynyddol o ran gwaith rhanbarthol |
| Oedi cyn cael cyllid grant | Gwariant ymrwymedig yn anghymwys<br>Cynllunio gwael | Colli grant gyda'r gwariant i gael ei ariannu trwy adfachu craidd neu adfachu grantiau<br>Llifoedd arian anffafriol |
| Llywodraethu – trefniadau ar gyfer y dyfodol | Penderfyniadau ddim yn cael eu gwneud mewn modd amserol | Oedi o ran gwneud gwelliannau, adfachu grantiau neu golli cyllid grant |
| Cyllid Awdurdod Lleol craidd nad yw'n dod i law | Y Consortiwm yn chwalu | Colli grant Llywodraeth Cymru<br>Gwaith rhanbarthol yn dod i ben |
| Darfodiad ERW | Gwariant annisgwyl ychwanegol yn deillio o ddarfodiad ERW | Cost ychwanegol i'r Cyd-bwyllgor a'i Awdurdodau Partner |

| Materion a allai effeithio ar y cyfrifon yn y dyfodol – bydd y materion hyn yn trosglwyddo i'r Partneriaeth newydd | | |
|---|---|---|
| **Eitem** | **Risg** | **Effaith Bosibl** |
| Newidiadau o ran Blaenoriaethau Gwleidyddol | Cwtogi cyllid | Lleihau'r gwasanaethau, neu roi'r gorau i weithio rhanbarthol |
| Deilliannau Addysgol | Nid yw cyrhaeddiad disgyblion yn gwella yn unol â'r cyflymder gofynnol | Colli cyllid grant yn y dyfodol/Awdurdodau Lleol yn gorfod newid eu lefelau cymorth i Partneriaeth |
| Cyllid Grant | Gwariant anghymwys a hawliwyd<br><br>RCSIG a'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael eu talu'n uniongyrchol i Gynghorau heb gael eu trosglwyddo i Partneriaeth. | Colli grant gyda'r gwariant i gael ei ariannu trwy adfachu craidd neu adfachu grantiau<br><br>Gostyngiad yn y gwasanaethau a ddarperir |
| Newid Demograffig | Tybiaethau anghywir | Costau uwch o ran gwasanaethau a chontractau |
| Cyllid Grant | Colli grantiau gan Lywodraeth Cymru | Gostyngiad yn y gwasanaethau a ddarperir |
| Trawsnewid/ Darparu Gwasanaethau Eraill | Nid yw dulliau gwahanol o weithio yn arwain at yr arbedion ariannol a dybiwyd | Gorwario/tanwario o ran y gyllideb<br>Trefniadau cyfrifyddu ar wahân |
| Safon y Gymraeg | Tybiaeth anghywir | Costau uwch o ran gwasanaethau a chontractau |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Peidio ag ystyried y ddeddf wrth wneud penderfyniadau | Cost camau unioni |
| Cyllid grant wedi'i atal gan Lywodraeth Cymru | Partneriaeth ddim yn glynu wrth natur ranbarthol amodau'r grant | Ysgolion ddim yn manteisio ar y cymorth gofynnol |
| Partneriaeth – Darparu addysg yn y dyfodol trwy weithio rhanbarthol | Nid yw'r gwasanaethau rhanbarthol yn parhau | Dim digon o gymorth yn cael ei ddarparu i ysgolion i roi'r cwricwlwm newydd ar waith a gweithredu argymhellion Estyn |

### 10.4 Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd i baratoi'r Datganiadau Cyfrifyddu Craidd a'r Nodiadau Ategol a Datganiadau Ariannol Atodol canlynol wedi'u hadolygu gan ddefnyddio Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2021-22.

#### 10.4.1 Egwyddorion Cyffredinol

Nod y polisïau cyfrifyddu a fabwysiedir fydd sicrhau bod y Datganiad o Gyfrifon yn rhoi darlun “gwir a theg” o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor ERW.

Caiff y cyfrifon eu paratoi yn unol â'r Cod Ymarfer diweddaraf ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol, a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) (y Cod), ac yn unol â'r Safonau ac Arferion Adrodd Ariannol perthnasol, oni nodir fel arall.

Caiff ffigurau eu cynnwys yn y Datganiadau Ariannol gan ddefnyddio'r confensiwn cost a bennir gan y safon gyfrifyddu briodol.

Caiff y polisïau cyfrifyddu eu diwygio, yn ôl y galw, ar sail polisïau'r flwyddyn flaenorol, er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn gofynion adrodd, a chaiff unrhyw gyfryw newidiadau eu datgelu.

### 10.4.2 Eitemau Eithriadol ac Arbennig, Addasiadau'r Flwyddyn Flaenorol, a Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Eitemau eithriadol – Ni chaiff yr un eitem o incwm neu wariant ei thrin fel eitem eithriadol. Felly, caiff pob eitem ei chynnwys ar y llinellau penodol ar gyfer Gwarged neu Ddiffyg o ran Darparu Gwasanaethau neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Eitemau arbennig – Pan fydd eitemau o incwm a gwariant yn berthnasol, caiff eu natur a'u swm eu datgelu ar wahân, naill ai yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Oni fydd y Cod yn caniatáu fel arall, bydd addasiadau perthnasol cyn y cyfnod yn arwain at ailddatgan ffigurau'r flwyddyn flaenorol a datgelu'r effaith.

Bydd digwyddiadau perthnasol sy'n digwydd ar ôl diwedd y cyfnod adrodd, os ydynt yn gymwys ar ddyddiad y Fantolen, yn diwygio'r Datganiad o Gyfrifon. Caiff digwyddiadau eraill eu datgelu ar y cyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol debygol. Os caiff ei ddiwygio ar ôl ei gyhoeddi, cyn i'r archwiliad ddod i ben, bydd y swyddog ariannol cyfrifol yn ail-ardystio'r Datganiad o Gyfrifon diwygiedig i nodi ei fod yn disodli'r un a gyhoeddwyd yn flaenorol.

### 10.4.3 Lesoedd a Threfniadau Tebyg

<u>Cydnabod a Dosbarthu</u>

Diffinnir lesoedd gweithredol yn yr un modd â'r holl drefniadau eraill sy'n debyg i les nad ystyrir eu bod yn lesoedd cyllid. Wrth ystyried lesoedd eiddo, caiff tir ac adeiladau eu hystyried ar wahân i ddibenion dosbarthu, a chaiff tir ag oes ddiderfyn ei gydnabod, yn gyffredinol, fel les weithredol.

Lesoedd Gweithredol – bydd y rhent cyfan sy'n daladwy o dan lesoedd gweithredol yn cael ei godi ar y cyfrif refeniw ar sail llinell syth dros oes y les.

### 10.4.4 Cronfeydd Wrth Gefn (Balansau Gweithio) Cyd-bwyllgor ERW

<u>Dosbarthu</u>

Caiff cronfeydd wrth gefn eu dosbarthu'n rhai defnyddiadwy, sydd ar gael i gefnogi gwariant yn y dyfodol, neu'n rhai annefnyddiadwy, sef y rheiny sy'n ofynnol i ddibenion cyfrifyddu ariannol.

<u>Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy</u>

Cyd-bwyllgor ERW a fydd yn gyfrifol am reoli a defnyddio'r holl gronfeydd wrth gefn.

Caiff y gwariant a ariennir o gronfeydd wrth gefn ei ddangos, pan fydd yn cael ei ysgwyddo, o dan yr adran wasanaeth briodol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
Bydd yr amgylchiadau canlynol yn caniatáu i symiau gael eu cadw'n ôl o'r refeniw:

i. Ymrwymiadau perthnasol sy'n bodoli ar gyfer nwyddau a gwasanaethau nas cafwyd neu nas talwyd amdanynt erbyn 31 Mawrth
ii. Hwyluso'r gwaith o drosglwyddo arian i flynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau defnydd costeffeithiol o adnoddau, a chaniatáu amrywiadau yn y galw am wasanaeth o flwyddyn i flwyddyn
iii. Neilltuo adnoddau ar gyfer datblygiadau neu ddigwyddiadau annisgwyl yn y dyfodol

<u>Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy</u>

Caiff y cronfeydd wrth gefn canlynol eu cynnal:

i. Cronfa Bensiwn Wrth Gefn – i adlewyrchu sefyllfa Cronfa'r Cynllun

<u>Adrodd</u>

Caiff dyraniadau i mewn ac allan o gronfeydd wrth gefn eu cofnodi yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

### 10.4.5 Incwm a Gwariant

<u>Costau a Buddion Cyflogeion</u>

Codir cyflogau yn unol â'r cyfnodau perthnasol a, lle bo angen, amcangyfrifir croniadau yn seiliedig ar gyfnodau talu blaenorol. Gwneir addasiad yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i ystyried hawl i absenoldeb a gronnwyd.

Costau pensiwn – gweler polisi 10.4.7 isod.

Cyflenwadau a Gwasanaethau, ac ati

Mae Cyd-bwyllgor ERW yn gweithredu system o groniadau a thaliadau a droswyd. Caiff credydwyr eu cronni ar ddiwedd cyfnod a bennwyd ymlaen llaw yn y flwyddyn ganlynol, a thrwy gynnwys amcangyfrifon ar gyfer eitemau o bwys sy'n parhau heb eu talu ar yr adeg hon, yn seiliedig ar ddyfynbrisiau neu gostau blaenorol. Mae eithriad i'r egwyddor hon yn ymwneud â thaliadau trydan a thaliadau cyfnodol tebyg, a godir ar y dyddiad y darllenir y mesurydd yn hytrach na chael eu dosrannu rhwng blynyddoedd ariannol. Caiff y polisi hwn ei gymhwyso'n gyson bob blwyddyn, ac felly nid yw'n cael effaith berthnasol ar gyfrifon unrhyw flwyddyn.

Gwasanaethau Cymorth

Codir tâl am yr holl wasanaethau cymorth a ddarperir yng Nghyd-bwyllgor ERW ac iddo trwy grant, fel y bo'n briodol, o fewn cwmpas y Telerau ac Amodau, a chyfraniadau Awdurdodau Lleol. Caiff y gwasanaethau cymorth eu darparu gan dîm gweinyddu yn ERW a chan Awdurdodau Lleol trwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau).

Incwm

Rhoddir cyfrif am yr holl incwm sy'n ddyledus i Gyd-bwyllgor ERW ar y dyddiad y mae'n ddyledus, a chaiff ei gydnabod ar sail gwerth teg.

### 10.4.6 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Cyffredinol

Rhoddir cyfrif am grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau eraill ar sail croniadau, a hynny pan fydd yr amodau ar gyfer eu cael wedi'u bodloni, a phan fydd sicrwydd rhesymol y daw'r grant neu gyfraniad i law.

Grantiau Refeniw a Chyfraniadau

Lle bydd grant refeniw neu gyfraniad wedi dod i law, a lle bydd yr amodau'n parhau heb eu bodloni ar ddyddiad y Fantolen, caiff y grant neu gyfraniad ei gydnabod fel derbyniad ymlaen llaw. Pan fydd amodau'r grant wedi'u bodloni, caiff ei gydnabod yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel incwm, a'i nodi yn y cyfrifon refeniw gwasanaeth ochr yn ochr â'r gwariant y mae'n berthnasol iddo.

Ad-daliad

Yn achos ad-daliad, caiff hwn ei gymhwyso'n gyntaf at unrhyw dderbyniad neu gyfraniad a gafwyd ymlaen llaw. I'r graddau y mae'r ad-daliad yn fwy na'r derbyniad ymlaen llaw, neu mewn achos lle nad oes derbyniad ymlaen llaw yn bodoli, caiff yr ad-daliad ei gydnabod yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel eitem o wariant.

### 10.4.7 Costau a Buddion Cyflogeion

Buddion yn ystod Cyflogaeth

Caiff costau taliadau cydnabyddiaeth arferol eu codi fel traul yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

Gwneir croniad diwedd blwyddyn yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas ag unrhyw gostau perthnasol sy'n deillio o hawl i wyliau sydd heb eu cymryd. Fodd bynnag, gan nad yw'n daliad, caiff, i ddibenion trethiant, ei dynnu allan yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Buddion Terfynu

Codir buddion terfynu yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fydd Cyd-bwyllgor ERW yn amlwg yn ymrwymedig i derfynu cyflogaeth.

Costau Pensiwn

Caiff y cyfraniadau pensiwn a delir gan Gyd-bwyllgor ERW eu codi ar sail croniadau ar y cyfrif refeniw gwasanaeth priodol ac, ynghyd â'r cyfraniadau a wnaed gan gyflogeion, cânt eu trosglwyddo i'r Gronfa briodol.

Cronfa Bensiwn Dyfed – Caiff y polisïau cyfrifyddu sy'n berthnasol i'r Gronfa eu pennu gan yr Awdurdod Gweinyddu, sef Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n cadw cyfrifon y Gronfa ac yn trefnu i wybodaeth actiwaraidd gael ei darparu i Gyrff sy'n rhan o'r gronfa.

Bydd Cyngor Sir Penfro, yn ei rôl o fod yn Awdurdod cyflogi Cyd-bwyllgor ERW, yn cynnwys costau gwasanaeth cyfredol pensiynau, a gyfrifwyd gan actiwari'r Gronfa, o dan gostau gwasanaethau, yn unol â gofynion IAS19, gan fod hyn yn cael ei gyfrif fel cynllun buddion diffiniedig.

Caiff y taliadau hyn eu tynnu allan yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, a chaiff y cyfraniadau gwirioneddol a dalwyd i'r Gronfa eu cynnwys er mwyn sicrhau y caiff y gost gywir ei chodi ar Gyd-bwyllgor ERW.

Caiff asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â Chyd-bwyllgor ERW eu datgelu ar y Fantolen.

Y Cynllun Pensiwn Athrawon – Yn achos athrawon, ni chaiff pensiynau “eu cyllido”, a chânt eu talu o gyfraniadau blynyddol, felly ni fydd unrhyw rwymedigaeth am fuddion yn y dyfodol yn cael ei chydnabod ar y Fantolen. Rhoddir cyfrif am y cynllun fel cynllun cyfraniadau diffiniedig, a chaiff y cyfraniadau sy'n daladwy eu cynnwys yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### 10.4.8 Dyledwyr, Amhariad Drwgddyledion a Chredydwyr

Caiff Dyledwyr Cyffredinol eu cydnabod ar y Fantolen a'u mesur yn ôl gwerth teg y swm sy'n dderbyniadwy ar ôl i'r refeniw gael ei gydnabod. Yn y mwyafrif o achosion, bydd gwerth teg yn gyfystyr â'r gwerth arian parod, ond yn achos dyledwyr hirdymor, caiff y gwerth ei ostwng yn ôl y gyfradd briodol i adlewyrchu gwerth teg. Caiff yr addasiad ei wneud yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ond, gan nad yw'n daliad priodol i Gyd-bwyllgor ERW, caiff ei dynnu allan yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'i gyfeirio i Gyfrif Addasu yr Offeryn Ariannol.

Lle bo incwm wedi cael ei gydnabod, ond lle nad oes arian parod wedi dod i law, cofnodir dyledwr ar gyfer y swm perthnasol ar y Fantolen. Lle nad yw'r ddyled wedi cael ei thalu, gwneir cofnod o falans y dyledwyr, a chodir tâl ar refeniw ar gyfer yr incwm na fydd, o bosibl, yn cael ei gasglu.

Caiff Credydwyr Cyffredinol eu cydnabod ar y Fantolen, a'u mesur yn ôl gwerth teg y swm sy'n daladwy ar ôl i nwyddau gael eu dosbarthu neu wasanaethau gael eu darparu. Yn y mwyafrif o achosion, bydd gwerth teg yn gyfystyr â'r gwerth arian parod ond, yn achos credydwyr hirdymor, caiff y gwerth ei ostwng yn ôl y gyfradd briodol i adlewyrchu gwerth teg. Caiff yr addasiad ei wneud yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ond, gan nad yw'n daliad priodol i gronfa Cyd-bwyllgor ERW, caiff ei dynnu allan yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'i gyfeirio i Gyfrif Addasu yr Offeryn Ariannol.

### 10.4.9 Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod

Fe'u cynrychiolir gan gronfeydd a ddelir i fodloni ymrwymiadau arian parod byrdymor, yn hytrach na'u buddsoddi at ddibenion eraill, ac sy'n hawdd eu trawsnewid yn symiau hysbys o arian parod. Bydd swm yr arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a ddiffinnir fel hyn yn cael ei bennu trwy gyfeirio at y rhagolygon dyddiol o lif yr arian parod.

### 10.4.10 TAW

Caiff trafodion eu dangos heb gynnwys TAW, i'r graddau y mae'n adenilladwy/daladwy.

### 10.4.11 <u>Partïon Cysylltiedig</u>

Caiff y datgeliadau canlynol eu gwneud mewn perthynas â thrafodion perthnasol â phartïon cysylltiedig nad ydynt wedi'u datgelu mewn man arall yn y Datganiad o Gyfrifon:

i. Natur y berthynas rhwng Cyd-bwyllgor ERW â phartïon cysylltiedig, a dylanwad y naill neu'r llall ar ei gilydd
ii. Cyfanswm y trafodion yn ystod y flwyddyn, gan ddangos symiau taladwy a derbyniadwy ar wahân
iii. Balansau sy'n ddyledus ar 31 Mawrth.

### 10.4.12 Darpariaethau

Yn dilyn digwyddiad, gwneir darpariaethau sy'n rhoi ymrwymiad cyfreithiol neu adeiladol ar Gyd-bwyllgor ERW, a bydd hwnnw, yn ôl pob tebyg, yn gofyn am setliad trwy drosglwyddo manteision economaidd neu botensial o ran gwasanaeth, a gellir rhoi amcangyfrif dibynadwy o swm yr ymrwymiad.

Codir tâl am ddarpariaethau ar y llinell gwasanaeth briodol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a hynny ar ffurf traul yn y flwyddyn y daw Cyd-bwyllgor ERW yn ymwybodol o'r ymrwymiad, a chânt eu mesur ar yr amcangyfrif gorau, ar ddyddiad y Fantolen, o'r gwariant gofynnol i setlo'r ymrwymiad, gan roi ystyriaeth i risgiau ac ansicrwyddau perthnasol.

Pan wneir y taliadau yn y pen draw, codir tâl amdanynt ar y ddarpariaeth sy'n cael ei chario yn y Fantolen. Adolygir setliadau amcangyfrifedig ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol; lle y daw bellach yn llai na thebygol y bydd trosglwyddo manteision economaidd yn ofynnol (neu lle caiff setliad is na'r disgwyl ei wneud), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Lle disgwylir y bydd rhan o'r taliad, neu'r taliad cyfan, sy'n ofynnol i setlo darpariaeth yn cael ei adfer oddi wrth barti arall (e.e. trwy hawliad yswiriant), cydnabyddir bod hyn yn incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol dim ond os ydyw fwy neu lai'n sicr y bydd ad-daliad yn cael ei wneud os bydd Cyd-bwyllgor ERW yn setlo'r ymrwymiad.

### 10.4.13 Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau

**Rhwymedigaethau Digwyddiadol**

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi yn sgil digwyddiad sy'n rhoi ymrwymiad posibl i ERW, y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau yn unig yn sgil digwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu beidio, nad ydynt o fewn rheolaeth lwyr ERW. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond nad yw'n debygol y bydd all-lif o adnoddau yn ofynnol, neu na all swm yr ymrwymiad gael ei fesur mewn modd dibynadwy.

Ni chydnabyddir rhwymedigaethau digwyddiadol ar y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

**Asedau Digwyddiadol**

Bydd ased digwyddiadol yn codi yn sgil digwyddiad sy'n rhoi ased posibl i ERW, y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau yn unig yn sgil digwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu beidio, nad ydynt o fewn rheolaeth lwyr ERW.

Ni chydnabyddir asedau digwyddiadol ar y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon pan fo'n debygol y bydd yna fewnlif o fuddion economaidd neu botensial o wasanaethau.

## 11.0 Datganiadau Ariannol Craidd – Elfennau a Manylion

Mae'r datganiadau ariannol craidd, a baratoir gan ddefnyddio Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), yn cynnwys:

- Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – sy'n dangos y gost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn seiliedig ar IFRS, yn hytrach na'r gost a ariannwyd mewn gwirionedd o drethiant. Dangosir y cysoniad â'r sefyllfa drethiant, a gynrychiolir gan yr arian gwirioneddol sydd ar gael i Gyd-bwyllgor ERW, yn y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid (nodyn 11.1).

- Y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn – sy'n dangos y symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn gwahanol a ddelir gan Gyd-bwyllgor ERW, wedi eu dadansoddi rhwng cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a chronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy, a ddelir i ddibenion cyfrifyddu ariannol

- Y Fantolen – sy'n nodi'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth o ran gwerth asedau a rhwymedigaethau a gydnabyddir gan Gyd-bwyllgor ERW, a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyd-bwyllgor.

- Y Datganiad Llif Arian – sy'n crynhoi'r mewnlifau a'r all-lifau arian parod, a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod, â thrydydd partïon, sy'n deillio o drafodion refeniw a chyfalaf.

**Nodiadau Ategol a Datganiadau Ariannol Atodol**

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dadansoddiad o Wariant a Chyllid.
- Nodiadau i'r datganiadau ariannol craidd.

### 11.1 Dadansoddiad o Wariant a Chyllid

Mae'r datganiad hwn yn dangos y cysoniad rhwng y modd y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i gyllido o adnoddau (grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau) gan ERW, fel yr adroddir i'r rheolwyr, o gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan ERW yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (yn seiliedig ar IFRS). Mae hefyd yn dangos y modd y dyrennir y gwariant hwn at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng gwasanaethau ERW. Caiff yr incwm a gwariant y gwneir cyfrif amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol eu cyflwyno'n fanylach yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2020-21* | | | | 2021-22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Net £000 | Addasiad rhwng y Sail Gyllido a'r Sail Gyfrifyddu £000 | Gwariant Net yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £000 | | Gwariant Net £000 | Addasiad rhwng y Sail Gyllido a'r Sail Gyfrifyddu £000 | Gwariant Net yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £000 |
| | | | **Gwariant** | | | |
| 3,109 | 139 | 3,248 | Cyflogeion* | 2,527 | 22 | 2,549 |
| 63 | | 63 | Adeiladau | 78 | | 78 |
| 5 | | 5 | Cludiant/Milltiredd | 1 | | 1 |
| 34 | | 34 | Cyfieithu | 20 | | 20 |
| 32 | | 32 | Cyflenwadau a Gwasanaethau | 14 | | 14 |
| 439 | | 439 | Ymgynghori | 472 | | 472 |
| 139 | | 139 | Gwasanaethau Cymorth | 160 | | 160 |
| 2,311 | | 2,311 | Taliadau i ysgolion trwy'r Awdurdodau Lleol ar gyfer prosiectau a ddiffinnir gan ERW* | 1,321 | | 1,321 |
| 16 | | 16 | Hyfforddiant/Cynadleddau | 0 | | 0 |
| 50,323 | | 50,323 | Grantiau a Drosglwyddwyd i ALlau | 0 | | 0 |
| **56,471** | **139** | **56,610** | **Cyfanswm y Gwariant** | **4,593** | **22** | **4,615** |
| | | | **Incwm** | | | |
| (480) | | (480) | Cyfraniadau gan Aelod-awdurdodau | (388) | | (388) |
| (55,752) | | (55,752) | Grant Llywodraeth Cymru* | (4,067) | | (4,067) |
| (302) | | (302) | Incwm Grant Arall | (1,049) | | (1,049) |
| (207) | | (207) | Incwm Amrywiol | (2) | | (2) |
| **(56,741)** | **0** | **(56,741)** | **Cyfanswm yr Incwm** | **(5,506)** | | **(5,506)** |
| **(270)** | **139** | **(131)** | **(Gwarged)/Diffyg o ran Gweithrediadau Parhaus** | **(913)** | **22** | **(891)** |
| | | | **Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi** | | | |
| 0 | 67 | 67 | Llog Pensiynau Net | 0 | 6 | 6 |
| | | | Ailfesur Rhwymedigaethau ac Asedau Pensiwn | | | |
| **(270)** | **206** | **(64)** | **(Gwarged) neu Ddiffyg o ran Darparu Gwasanaethau** | **(913)** | **28** | **(885)** |
| **(270)** | **206** | **(64)** | **CYFANSWM YR INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR** | **(913)** | **28** | **(885)** |

*Addasiad y Flwyddyn Flaenorol mewn perthynas â £27k gor-gronni gwariant yn 2020-21

| | 2020-21 Balans y Gronfa £000 | 2021-22 Balans y Gronfa £000 |
|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Agoriadol, Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy wedi'u Clustnodi | (352) | (622) |
| (Gwarged)/Diffyg o ran y Gronfa Gyffredinol | (270) | 913 |
| Cronfa Gyffredinol derfynol, Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy wedi'u Clustnodi | **(622)** | **(1,535)** |

**11.2 Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**

Mae'r datganiad hwn yn dangos cost economaidd darparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Gellir crynhoi'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel a ganlyn:

- **Gwarged/Diffyg o ran Gweithrediadau Parhaus** – yn dadansoddi, fesul grwpiau goddrychol, incwm a gwariant o ddydd i ddydd ar eitemau megis taliadau cydnabyddiaeth cyflogeion, costau rhedeg gwasanaethau, grantiau gwasanaeth penodol, ffioedd a thaliadau.
  Yn unol â gofynion y Cod, mae incwm a gwariant gweithredol gwasanaethau yn cynnwys y costau “tybiannol” canlynol a gaiff eu “tynnu allan” yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn:
- Costau pensiwn gwasanaeth cyfredol.
- **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** – mae hwn yn dangos y gwarged neu'r diffyg sy'n deillio o ailfesur asedau a rhwymedigaethau pensiwn.

| DATGANIAD O INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR | Nodyn | 2020-21* | | | 2021-22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif | Gwariant Gros £000 | Incwm £000 | Gwariant Net £000 | Gwariant Gros £000 | Incwm £000 | Gwariant Net £000 |
| **<u>Gwariant</u>** | | | | | | | |
| Cyflogeion* | | 3,109 | 139 | 3,248 | 2,549 | 0 | 2,549 |
| Adeiladau | | 63 | 0 | 63 | 78 | 0 | 78 |
| Cludiant/Milltiredd | | 5 | 0 | 5 | 1 | 0 | 1 |
| Cyfieithu | | 34 | 0 | 34 | 20 | 0 | 20 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | 32 | 0 | 32 | 14 | 0 | 14 |
| Ymgynghori | | 439 | 0 | 439 | 472 | 0 | 472 |
| Gwasanaethau Cymorth | | 139 | 0 | 139 | 160 | 0 | 160 |
| Taliadau i ysgolion trwy'r Awdurdodau Lleol ar gyfer prosiectau a ddiffinnir gan ERW* | | 2,311 | 0 | 2,311 | 1,321 | 0 | 1,321 |
| Hyfforddiant/Cynadleddau | | 16 | 0 | 16 | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaeth drwgddyled | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Gwariant** | | **6,148** | **139** | **6,287** | **4,615** | **0** | **4,615** |
| **Incwm** | | | | | | | |
| Cyfraniadau gan Aelod-awdurdodau | | 0 | (480) | (480) | 0 | (388) | (388) |
| Grant Llywodraeth Cymru* | | | (5,429) | (5,429) | 0 | (4,067) | (4,067) |
| Incwm Grant Arall | | 0 | (302) | (302) | 0 | (1,049) | (1,049) |
| Incwm Amrywiol | | 0 | (207) | (207) | 0 | (2) | (2) |
| **Cyfanswm yr Incwm** | | **0** | **(6,418)** | **(6,418)** | **0** | **(5,506)** | **(5,506)** |
| **Grant LlC a Drosglwyddwyd i Aelod-awdurdodau** | **13.1** | | | | | | |
| Sir Gaerfyrddin | | 12,712 | (12,712) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | | 4,022 | (4,022) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Benfro | | 7,955 | (7,955) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | | 7,262 | (7,262) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dinas a Sir Abertawe | | 18,372 | (18,372) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | **50,323** | **(50,323)** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(Gwarged)/Diffyg o ran Gweithrediadau Parhaus** | | **56,471** | **(56,602)** | **(131)** | **4,615** | **(5,506)** | **(891)** |
| **Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi** | | | | | | | |
| Llog Pensiynau Net | **13.2** | | | 67 | | | 6 |
| **(Gwarged) neu Ddiffyg o ran Darparu Gwasanaethau** | | | | **(64)** | | | **(885)** |
| **CYFANSWM YR INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR** | | | | **(64)** | | | **(885)** |

*Addasiad y Flwyddyn Flaenorol mewn perthynas â £27k gor-gronni gwariant yn 2020-21

**11.3 Datganiad o Symudiadau Mewn Cronfeydd Wrth Gefn**

Mae'r Datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn ar y cronfeydd wrth gefn gwahanol a ddelir gan Gyd-bwyllgor ERW, wedi eu dadansoddi rhwng cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy (y rheiny y gellir eu cymhwyso at wariant cronfa) a chronfeydd wrth gefn eraill sy'n annefnyddiadwy. Mae'r cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu, ac a gaiff eu gwireddu dim ond pan gaiff asedau eu gwerthu, a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau cyfrifyddu y mae eu hangen i gysoni'r gwahaniaethau rhwng adrodd ar sail gyfrifyddu IFRS a'r sail gyllido statudol.

Mae'r (Gwarged)/Diffyg o ran darparu gwasanaethau yn adlewyrchu cost economaidd darparu gwasanaethau Cyd-bwyllgor ERW. Ceir rhagor o fanylion am hynny yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar y dudalen ganlynol.

| **Gwirioneddol 2021-22** | **Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy ERW wedi'u Clustnodi** | **Cronfa Weithio Wrth Gefn Gyffredinol ERW** | **Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy ERW £000** | **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn ERW £000** |
|---|---|---|---|---|
| **Balans 1 Ebrill 2021** | **(622)** | **(100)** | **613** | **(109)** |
| (Gwarged)/Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau | (885) | 0 | 0 | **(885)** |
| **Cyfanswm yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler nodyn 11.2)** | **(885)** | **0** | **0** | **(885)** |
| Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido dan Reoliad (gweler nodyn 12.0) | (28) | 0 | 28 | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn ystod y Flwyddyn** | **(913)** | 0 | **28** | **(885)** |
| **Balans 31 Mawrth 2022** | **(1,535)** | **(100)** | **641** | **(994)** |

| **Gwirioneddol 2020-21** | **Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy ERW wedi'u Clustnodi** | **Cronfa Weithio Wrth Gefn Gyffredinol ERW** | **Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy ERW £000** | **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn ERW £000** |
|---|---|---|---|---|
| **Balans 1 Ebrill 2020** | **(352)** | **(100)** | **407** | **(45)** |
| (Gwarged)/Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau | (64) | 0 | 0 | **(64)** |
| **Cyfanswm yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler nodyn 11.2)** | **(64)** | **0** | **0** | **(64)** |
| Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido dan Reoliad (gweler nodyn 12.0) | (206) | 0 | 206 | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn ystod y Flwyddyn** | **(270)** | **0** | **206** | **(64)** |
| **Balans 31 Mawrth 2021** | **(622)** | **(100)** | **613** | **(109)** |

## 11.4 Mantolen

Mae'r Datganiad hwn yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan Gyd-bwyllgor ERW ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r canlynol yn cyfateb i'r asedau net (asedau llai rhwymedigaethau):

- Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, sy'n cynnwys y Gronfa Weithio Wrth Gefn Gyffredinol a Chronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi.

- Cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy, sy'n cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n hwyluso'r addasiadau gofynnol rhwng y sail gyfrifyddu a ddefnyddiwyd i baratoi'r Datganiad o Gyfrifon a'r sail gyllido statudol dan reoliad.

| MANTOLEN AR 31 MAWRTH | Rhif y nodyn | 2020-21 | | | 2021-22 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | | £000 | £000 |
| **ASEDAU CYFREDOL:** | | | | | | |
| Dyledwyr Byrdymor a Rhagdaliadau | 15.1.1 | 295 | | | 4,004 | |
| Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod | 15.2 | 3,135 | | | 951 | |
| **Cyfanswm yr Asedau Cyfredol** | | | **3,430** | | | **4,955** |
| **CYFANSWM YR ASEDAU** | | | | | | |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | | | | |
| Credydwyr Byrdymor | 15.1.2 | (2,016) | | | (3,320) | |
| Taliad Ymlaen Llaw | 15.1.2 | (692) | | | 0 | |
| **Cyfanswm y Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | **(2,708)** | | | **(3,320)** |
| **CYFANSWM YR ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | **722** | | | **1,635** |
| Rhwymedigaeth Cronfa Bensiwn Net | 15.4 | (613) | | | (641) | |
| **CYFANSWM Y RHWYMEDIGAETHAU HIRDYMOR** | | | **(613)** | | | **(641)** |
| **ASEDAU NET** | | | **109** | | | **994** |
| Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | | | | | | |
| – Cronfeydd Wrth Gefn y Cyd-bwyllgor wedi'u Clustnodi | 14.2 | | (622) | | | (1,535) |
| – Y Gronfa Weithio Wrth Gefn Gyffredinol | 14.2 | | (100) | | | (100) |
| Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy | | | | | | |
| – Cronfa Bensiwn Wrth Gefn | 14.3 | | 613 | | | 641 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN** | | | **(109)** | | | **(994)** |

### 11.5 Datganiad Llif Arian

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y cyfnod adrodd, gan ddangos y modd y mae Cyd-bwyllgor ERW yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod trwy ddosbarthu llifoedd arian yn weithgareddau gweithredol, buddsoddi ac ariannu.

Mae swm y llifoedd arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredol net yn ddangosydd allweddol o'r graddau y caiff gweithrediadau eu hariannu trwy incwm grant neu gan y sawl sy'n cael y gwasanaethau a ddarperir gan Gyd-bwyllgor ERW.

Caiff pob trafodiad arian parod ei weinyddu gan Gyngor Sir Penfro gan nad yw Cyd-bwyllgor ERW yn gweithredu ei gyfrif banc ei hun.

| DATGANIAD LLIF ARIAN | 2020-21 | | 2021-22 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cysoni'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr â'r Llif Arian Refeniw Net** | | | | |
| **(Gwarged)/Diffyg Net o ran darparu gwasanaethau** | | **(64)** | | **(885)** |
| **Addasiadau i'r gwarged neu'r diffyg net o ran darparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod** | | | | |
| Addasiadau i'r gronfa bensiwn | (206) | | (28) | |
| Symudiadau mewn dyledwyr, credydwyr, stociau refeniw, ac ati. | (140) | **(346)** | 3,097 | **3,069** |
| **Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredol** | | **(410)** | | **2,184** |
| | | | | |
| **(CYNNYDD)/GOSTYNGIAD NET MEWN ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD** | | | | |
| Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 2,725 | | 3,135 | |
| Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd | 3,135 | | 951 | |
| **(CYNNYDD)/GOSTYNGIAD MEWN ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD** | | **(410)** | | **2,184** |

Gweler nodyn 15.1 ar gyfer dadansoddiad o'r dyledwyr a'r credydwyr, a nodyn 15.2 ar gyfer arian parod ar ddiwedd y flwyddyn.

## 12.0 Nodiadau i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid

| | 2021-22 | | |
|---|---|---|---|
| | Newid Net ar gyfer yr Addasiadau Pensiynau | Gwahaniaethau Eraill | Cyfanswm yr Addasiadau |
| (Gwarged)/Diffyg o ran Gweithrediadau Parhaus<br>Gwariant Gweithredu Arall | 22 | 0 | 22 |
| Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi<br>Trethiant ac incwm grant amhenodol | 6 | 0 | 6 |
| **Y gwahaniaeth rhwng gwarged neu ddiffyg y Gronfa Gyffredinol a Gwarged neu Ddiffyg y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr o ran Darparu Gwasanaethau** | **28** | **0** | **28** |

| | 2020-21 | | |
|---|---|---|---|
| | Newid Net ar gyfer yr Addasiadau Pensiynau | Gwahaniaethau Eraill | Cyfanswm yr Addasiadau |
| (Gwarged)/Diffyg o ran Gweithrediadau Parhaus<br>Gwariant Gweithredu Arall | 139 | 0 | 139 |
| Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi<br>Trethiant ac incwm grant amhenodol | 67 | 0 | 67 |
| **Y gwahaniaeth rhwng gwarged neu ddiffyg y Gronfa Gyffredinol a Gwarged neu Ddiffyg y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr o ran Darparu Gwasanaethau** | **206** | **0** | **206** |

### 12.1 Newid Net ar gyfer yr Addasiadau Pensiynau

Newid net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu incwm a gwariant sy'n ymwneud â phensiwn, sef IAS 19 Buddion Cyflogeion:

- Yn achos gwasanaethau, mae hyn yn golygu dileu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a delir gan ERW, yn unol â'r hyn a ganiateir yn ôl statud, a'u hamnewid am gostau'r gwasanaeth cyfredol a chostau'r gwasanaeth yn y gorffennol.
- Yn achos incwm a gwariant cyllido a buddsoddi –- codir llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## 13.0 Nodiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

### 13.1 Grantiau Refeniw

Mae'r tabl isod yn nodi incwm grant penodol gan Lywodraeth Cymru a Chyrff Dyfarnu Grantiau eraill.

| Grantiau Refeniw | 2020-21 | Grantiau a Ddyrannwyd yn Uniongyrchol i Awdurdodau | Grantiau a Ddelir yn Ganolog* | 2021-22 | Grantiau a Ddyrannwyd yn Uniongyrchol i Awdurdodau | Grantiau a Ddelir yn Ganolog |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Y Grant Datblygu Disgyblion | (21,274) | (20,957) | (317) | (70) | 0 | (70) |
| Cymedroli Athrawon Newydd Gymhwyso gan y CGA | (224) | 0 | (224) | (1,049) | 0 | (1,049) |
| Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol* | (34,478) | (29,366) | (5,112) | (3,932) | 0 | (3,932) |
| Siarter Iaith | 0 | 0 | 0 | (65) | 0 | (65) |
| Eraill | (78) | 0 | (78) | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Grantiau Refeniw** | **(56,054)** | **(50,323)** | **(5,731)** | **(5,116)** | **0** | **(5,116)** |

*Addasiad y Flwyddyn Flaenorol mewn perthynas â £27k gor-gronni gwariant yn 2020-21

Rhoddwyd cyfrif am y grantiau refeniw uchod fel a ganlyn yn ystod y flwyddyn:

| Grantiau Refeniw | 2020-21 | Grantiau a Ddyrannwyd yn Uniongyrchol i Awdurdodau | Grantiau a Ddelir yn Ganolog* | 2021-22 | Grantiau a Ddyrannwyd yn Uniongyrchol i Awdurdodau | Grantiau a Ddelir yn Ganolog |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Grantiau Llywodraeth Cymru a Gafwyd* | (55,752) | (50,323) | (5,429) | (3,567) | 0 | (3,567) |
| CGA | (224) | 0 | (224) | (1,049) | 0 | (1,049) |
| Eraill | (78) | 0 | (78) | 0 | 0 | 0 |
| **Grantiau a Gredydwyd fel Incwm yn ystod y Flwyddyn** | **(56,054)** | **(50,323)** | **(5,731)** | **(5,116)** | **0** | **(5,116)** |

*Addasiad y Flwyddyn Flaenorol mewn perthynas â £27k gor-gronni gwariant yn 2020-21

#### 13.1.1 Dadansoddiad pellach o'r Grantiau a ddelir yn ganolog:

| Grantiau Refeniw | 2020-21* | Grantiau a Ddelir yn Ganolog | 2021-22 | Grantiau a Ddelir yn Ganolog |
|---|---|---|---|---|
| | | £000 | | £000 |
| **Taliadau i ysgolion trwy'r ALlau ar gyfer gwaith penodol** | | | | |
| Sir Gaerfyrddin | 527 | | 399 | |
| Ceredigion | 190 | | 49 | |
| Castell-nedd Port Talbot* | 86 | | 0 | |
| Sir Benfro | 413 | | 236 | |
| Powys | 379 | | 44 | |
| Dinas a Sir Abertawe | 716 | | 593 | |
| | | 2,311 | | 1,321 |
| **Gwariant arall** | | | | |
| Cyflogeion* | 2,432 | | 2,384 | |
| Grantiau sy'n cwmpasu'r Tîm Canolog | 500 | | 0 | |
| Adeiladau | 0 | | 12 | |
| Cludiant/Milltiredd | 4 | | 1 | |
| Cyfieithu | 28 | | 16 | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 444 | | 424 | |
| Hwyluso | 12 | | 0 | |
| | | 3,420 | | 2,837 |
| Dyraniad o'r / i'rGronfa Wrth Gefn (CGA) | | 0 | | 958 |
| **Cyfanswm y Gwariant** | | 5,731 | | 5,116 |

*Addasiad y Flwyddyn Flaenorol mewn perthynas â £27k gor-gronni gwariant yn 2020-21

### 13.2 Costau Pensiwn

Mae Cyd-bwyllgor ERW yn rhan o ddau gynllun pensiwn:

**13.2.1 Cynllun Pensiwn Dyfed**, a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae hwn yn gynllun â buddion wedi'u diffinio y mae cyflogeion ac aelodau Cyd-bwyllgor ERW, trwy Gyngor Sir Penfro yn ei rôl o fod yn gyflogwr, yn talu cyfraniadau iddo. Mae'r cynllun yn gweithredu'n unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Phensiynau Llywodraeth Leol.

Cafodd cyfradd gyfansawdd ar gyfer cyfraniadau'r cyflogwr, a ddefnyddiwyd yn 2021-22, ei chyfrifo gan actiwari'r Gronfa yn seiliedig ar y prisiad ar 31 Mawrth 2019 ar gyfer holl gyflogeion y Cyngor Sir sy'n aelodau o'r cynllun.

Prisiwyd y Gronfa ar 31 Mawrth 2019, ac mae canlyniadau'r prisiad hwn wedi'u hadlewyrchu yng Nghyfrifon 2021-22.

Mae'r datgeliadau isod yn ofynnol o dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 (IAS 19), sy'n defnyddio tybiaethau ychydig yn wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y prisiad actiwaraidd, ac fe'u cynhyrchir gan actiwari'r Gronfa ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Mae IAS 19 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o asedau gael eu prisio yn ôl “gwerthoedd dichonadwy” h.y.: gwerthoedd a gynigir, yn hytrach na
“gwerthoedd teg” (yn y bôn, gwerthoedd y farchnad).

Bydd asedau buddsoddi'r gronfa bensiynau yn symud yn unol â gwerth y gwarannau a ddyfynnir ar farchnadoedd ecwiti y byd, a allai gynyddu neu ostwng. Gan fod gorwel amser y Gronfa Bensiwn yn un hirdymor, a chan nad yw gwir werth buddsoddiadau yn cael ei wireddu hyd nes y cânt eu gwerthu, ni wneir unrhyw addasiadau ar gyfer newidiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau rhwng 31 Mawrth 2022 a'r dyddiad yr awdurdodir y datganiadau cyfrifyddu i'w cyhoeddi.

<u>Llog ar Asedau</u>
Dyma'r llog ar asedau a ddelir ar ddechrau'r cyfnod a llifoedd arian sy'n digwydd yn ystod y cyfnod, a gyfrifir gan ddefnyddio'r gyfradd ostyngol ar ddechrau'r flwyddyn.

Cyfrifir Cost Llog Net fel llog ar rwymedigaethau pensiwn llai'r llog ar asedau.

<u>Cydnabod Enillion a Cholledion Actiwaraidd</u>
Cydnabyddir yr holl enillion a cholledion actiwaraidd yn y flwyddyn y digwyddant ynddi trwy Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Caiff enillion a cholledion actiwaraidd ar rwymedigaethau, oherwydd newidiadau i dybiaethau actiwaraidd, eu rhannu rhwng effaith newidiadau i dybiaethau ariannol a newidiadau i dybiaethau demograffig.

<u>Treuliau</u>
Cydnabyddir treuliau gweinyddol fel eitem ar wahân o fewn cost y pensiwn. Caiff treuliau buddsoddi eu trin fel colled ar ased, ac felly fe'u cydnabyddir trwy Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

#### 13.2.2 Cynllun Pensiwn Athrawon

Gweinyddir y cynllun gan yr Adran Addysg yng Nghymru a Lloegr. Ni chaiff y cynllun hwn ei gyllido. Mae hyn yn golygu nad oes yna asedau wedi eu buddsoddi sydd wedi cronni i dalu costau'r pensiwn cyn iddynt godi, ac felly ni fydd unrhyw asedau na rhwymedigaethau cyllido yn ymddangos ym Mantolen Cyd-bwyllgor ERW. Cyngor Sir Penfro sy'n gyfrifol am gostau unrhyw fudd-daliadau ychwanegol a ddyrennir pan fydd unigolyn yn ymddeol yn gynnar y tu hwnt i delerau'r cynllun athrawon.

#### 13.2.3 Dyfarniad Cyfreithiol McCloud – Gwahaniaethu ar Sail oedran yn y Cronfeydd Pensiwn

Ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliad mewn perthynas â chynnydd yn oedran cyfartalog aelodau'r cynllun, ond ni roddwyd yr un rheswm i awgrymu y bu unrhyw newidiadau arwyddocaol oddi ar brisiad actiwaraidd 2019.

Mae'r rhwymedigaeth pensiwn net yr adroddir amdani yn y cyfrifon yn cynnwys rhwymedigaeth arfaethedig sy'n gysylltiedig â dyfarniad McCloud. Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynigion i ymgynghori ar rwymedi i fynd i'r afael â mater McCloud. Mae actiwari'r gronfa bensiwn wedi seilio'r amcangyfrif ar brif ddarpariaethau'r rhwymedi; fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd yn dal i fodoli ynghylch y canlyniad terfynol.

### Trafodion Refeniw

| Cofnodion yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a gaiff eu cynnwys yn y Gwariant Gweithredol Net | 2020-21 | | 2021-22 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Llog ar Rwymedigaethau Pensiwn | 218 | | 22 | |
| Llog ar Asedau'r Cynllun | (151) | | (16) | |
| | | 67 | | 6 |
| Cost y Gwasanaeth Cyfredol | | 319 | | 40 |
| | | **386** | | **46** |
| **Datganiad o Symudiadau ar Gofnodion Mantolen Cronfa'r Cyngor** | | | | |
| **Tynnu'r Cofnodion IAS 19 Uchod yn Ôl: Taliadau Gwirioneddol a Dalwyd yn ystod y Flwyddyn** | | (386) | | (46) |
| Y Swm Gwirioneddol a Godwyd ar gyfer y Cyfnod | 180 | | 18 | |
| | | 180 | | 18 |
| **Addasiad Net Gofynnol** | | **(206)** | | **(28)** |

Bydd asedau buddsoddi'r gronfa bensiynau yn symud yn unol â gwerth y gwarannau a ddyfynnir ar farchnadoedd ecwiti y byd, a allai gynyddu neu ostwng. Gan fod gorwel amser y Gronfa Bensiwn yn un hirdymor, a chan nad yw gwir werth buddsoddiadau yn cael ei wireddu hyd nes y cânt eu gwerthu, ni wneir unrhyw addasiadau ar gyfer newidiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau rhwng 31 Mawrth 2022 a'r dyddiad yr awdurdodir y datganiadau cyfrifyddu i'w cyhoeddi.

### 13.3 Costau Eithriadol

Ni aethpwyd i unrhyw gostau eithriadol yn ystod y cyfnod.

### 13.4 Manylion Taliadau Cydnabyddiaeth

**13.4.1** Mae'r tablau canlynol yn nodi'r datgeliad o daliadau cydnabyddiaeth ar gyfer Uwch-staff Cyd-bwyllgor ERW fel a ganlyn:

- Y Rheolwr Gyfarwyddwr ac Uwch-staff Eraill, gan gynnwys cyfraniadau pensiwn neu daliadau cyfatebol. Roedd cyfanswm y gyfradd cyfraniadau ar gyfer cyfraniadau pensiwn y cyflogwr yn 17.1% ar gyfer 2020-21 a 2021-22.
- Cyflogeion eraill a gafodd taliadau cydnabyddiaeth gwerth £60,000 neu fwy (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr) mewn bandiau o £5,000.

| Uwch-swyddogion | Blwyddyn | Cyflog Gros, Ffioedd ac Enillion Eraill | Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr at Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | Buddion mewn Nwyddau neu Wasanaethau |
|---|---|---|---|---|
| Y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro* | **2020-21** | £36,382 | £5,848 | 0 |
| Prif Swyddog Dros Dro** | **2020-21** | £43,348 | £7,412 | 0 |
| Prif Swyddog Dros Dro** | **2020-21** | £43,348 | £7,412 | 0 |
| Y Pennaeth Adnoddau Dynol*** | **2020-21** | £40,730 | £6,965 | £6,836 |
| Prif Swyddog Dros Dro** | **2021-22** | £75,244 | £10,734 | 0 |
| Prif Swyddog Dros Dro** | **2021-22** | £75,573 | £12,923 | 0 |
| Y Pennaeth Adnoddau Dynol*** | **2021-22** | £99,220 | £16,967 | £16,531 |

* Penodwyd y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer y cyfnod o 1 Mehefin 2020 tan 31 Awst 2020

** Penodwyd dau Brif Swyddog Dros Dro o 1 Medi 2020 tan 31 Mawrth 2022

*** Secondiwyd y Pennaeth Adnoddau Dynol o Gyngor Sir Penfro ar gyfer y cyfnod o 1 Tachwedd 2020 tan 31 Mawrth 2022

| Cyflogeion Eraill | Nifer y Cyflogeion Eraill | |
|---|---|---|
| **Band Cydnabyddiaeth** | **2020-21** | **2021-22** |
| £60,000-£64,999 | 1 | 1 |
| £65,000-£69,999 | 2 | 1 |
| £70,000-£74,999 | 0 | 3 |

Cafodd un cyflogai dâl cydnabyddiaeth a oedd yn fwy na £60,000, ond mae wedi'i eithrio o'r tabl oherwydd iddo gael ei secondio ac oherwydd y codwyd tâl am hynny ar Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2020 tan fis Mawrth 2021. Roedd cyfanswm yr ad-daliad gan Lywodraeth Cymru yn £95 mil (trwy anfoneb i LlC).

Mae yna uwch-swyddogion eraill ar Gyd-bwyllgor ERW nad ydynt wedi eu cyflogi gan y Consortiwm ac nad ydynt yn cael unrhyw daliad cydnabyddiaeth trwy'r rolau ychwanegol y maent yn eu cyflawni ar ran y rhanbarth. Maent yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Y Prif Weithredwr Arweiniol | Abertawe |
| Y Cyfarwyddwr Addysg Arweiniol | Sir Gaerfyrddin |
| Y Cyfarwyddwr Adnoddau/Swyddog A151 | Sir Benfro |
| Y Swyddog Monitro | Abertawe |

Hefyd ar y Bwrdd Gweithredol yr oedd y pedwar Cyfarwyddwr Addysg arall o Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Powys ac Abertawe.

I gael gwybodaeth am daliadau cydnabyddiaeth yr unigolion uchod ac aelodau staff ar secondiad, dylai defnyddwyr gyfeirio at Ddatganiadau o Gyfrifon yr Awdurdod Lleol priodol.

### 13.4.2 Buddion Terfynu

| Costau Diswyddo a Therfynu Eraill | 2020-21 | | | | 2021-22 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Band** | **Niferoedd** | | | **£000** | **Niferoedd** | | | **£000** |
| | **Gorfodol** | **Arall** | **Cyfanswm** | | **Gorfodol** | **Arall** | **Cyfanswm** | |
| £0-£20,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 8 |
| £20,001-£40,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 23 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **2** | **2** | **31** |

| Costau Pensiynau – Setliad Cyfalaf | 2020-21 | | 2021-22 | |
|---|---|---|---|---|
| **Band** | **Niferoedd** | **£000** | **Niferoedd** | **£000** |
| £0-£20,000 | 0 | 0 | 1 | 17 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **1** | **17** |

### 13.5 Ffioedd Archwilio

Amcangyfrifir bod y symiau canlynol yn daladwy i Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn:

| | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|
| Ffioedd sy'n daladwy i Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol a ddarparwyd gan yr Archwilydd Penodedig ar gyfer y flwyddyn | 13 | 16 |
| **Cyfanswm** | **13** | **16** |

### 13.6 Partïon Cysylltiedig

Mae Partïon Cysylltiedig yn cyfeirio at gyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar Gyd-bwyllgor ERW, neu i gael eu dylanwadu neu eu rheoli gan Gyd-bwyllgor ERW, a thrwy hynny atal gallu Cyd-bwyllgor ERW neu'r parti arall i weithredu'n annibynnol.

Mae yna achosion eraill lle gall Aelodau'r Bwrdd Gweithredol, swyddogion arweiniol ac Aelodau o Gyd-bwyllgor

ERW fynd i gyfarfodydd y cyrff trydydd parti, ond nid oes ganddynt y gallu uniongyrchol i arfer rheolaeth; fodd bynnag, gall eu barn ddylanwadu ar benderfyniadau a pholisïau.

**13.6.1 Buddiannau o Bwys**

Mae'n ofynnol i aelodau Cyd-bwyllgor ERW, Swyddogion Arweiniol a Swyddogion y Bwrdd Gweithredol ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sy'n deillio o gyflogaeth a threfniadau eraill. Nid oes unrhyw wrthdaro buddiannau i'w gofnodi.

**13.6.2 Cysylltiadau Perthnasol**

Mae'r cysylltiadau perthnasol canlynol wedi'u nodi lle mae dylanwad perthnasol yn bodoli.

**Llywodraeth Cymru**

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y fframwaith statudol ac sy'n darparu'r rhan fwyaf o gyllid Cyd-bwyllgor ERW, trwy Awdurdodau Lleol ar gyfer 2021-22, y mae llawer ohono'n ddarostyngedig i delerau ac amodau penodol. Felly, gall y cyrff arfer rheolaeth effeithiol dros weithrediadau Cyd-bwyllgor ERW. Nodir manylion y grantiau a gafwyd yn nodyn 13.1.

Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm y trafodiadau a'r balansau diwedd blwyddyn yn achos chwe Awdurdod Lleol:

| Trafodiadau gydag Awdurdodau Lleol | Dyledwyr sy'n Disgwyl Sylw £000 | Credydwyr sy'n Disgwyl Sylw £000 | Credydwyr sy'n Disgwyl Sylw (Balans y Grant sy'n ddyledus i ALlau) £000 | Cyfanswm y gwariant yn ystod y flwyddyn £000 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 1,695 | (205) | (511) | 215 |
| Cyngor Sir Penfro | 0 | (226) | (329) | 490 |
| Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | | 16 |
| Cyngor Sir Abertawe | 1,860 | (241) | (621) | 467 |
| Cyngor Sir Powys | 286 | 0 | (203) | 43 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 66 | 0 | | 23 |
| **CYFANSWM** | **3,907** | **(672)** | **(1,664)** | **1,254** |

## 14.0 Nodiadau i'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn

### 14.1 Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido Reoleiddiol

| Gwirioneddol | 2020-21 | | 2021-22 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy ERW £000 | Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy ERW £000 | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy ERW £000 | Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy ERW £000 |
| **Symiau sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfanswm yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y mae'n ofynnol o dan y rheoliadau eu heithrio, er mwyn pennu'r sefyllfa ariannol** | | | | |
| Addasiad i Gostau Pensiwn | (386) | (386) | (46) | (46) |
| **Symiau sydd wedi'u heithrio yng Nghyfanswm yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y mae'n ofynnol o dan y rheoliadau eu cynnwys, er mwyn pennu'r sefyllfa ariannol** | | | | |
| Cyfraniad y Cyflogwyr i Gynllun Pensiwn | 180 | 180 | 18 | 18 |
| **Addasiad Net Gofynnol** | **(206)** | **(206)** | **(28)** | **(28)** |

### 14.2 Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy

| Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | Balans 1 Ebrill 2021 £000 | Cyfraniad o Gyfrifon Refeniw £000 | Cyfraniad i Gyfrifon Refeniw £000 | Balans 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi | (622) | (913) | 0 | (1,535) |
| Cronfa Weithio Wrth Gefn Gyffredinol | (100) | 0 | 0 | (100) |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy** | **(722)** | **(913)** | **0** | **(1,635)** |

**Cronfa Weithio Wrth Gefn Gyffredinol**

Mae'r gronfa wrth gefn hon yn cynnwys balans gweithio ERW, a chaiff ei chynnal i dalu am ddigwyddiadau gweithredol posibl o ddydd i ddydd. Cafodd ei chreu yn 2016-17 er mwyn darparu lefel ddigonol o gyllid i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl.

**Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi**

Mae'r rhain yn cynnwys balansau a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn at ddibenion penodol, a chânt eu defnyddio yn unol â'r gofynion penodol hynny.

Caiff y ddwy gronfa wrth gefn eu hadolygu'n flynyddol yn ystod proses y gyllideb.

**Trosglwyddo Cronfeydd wrth Gefn wrth ddod ag ERW i ben**

Rhagwelir y bydd balans gweithio a chronfeydd wrth gefn ar gyfer Partneriaeth yn cael eu creu yn dilyn darfodiad ERW, gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn ERW a balansau Cyngor y Gweithlu Addysg. Bydd unrhyw gronfeydd wrth gefn neu falansau sy'n weddill yn cael eu dosbarthu i'r Awdurdodau Lleol sy'n weddill, yn unol â Chytundeb Cyd-bwyllgor ERW.

### 14.3 Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy

Mae'r trafodiadau yng nghyfrifon y cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy, a grynhoir isod, i'w gweld mewn rhagor o fanylder yn nodyn 15.4.

| Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy | Balans 1 Ebrill 2021 £000 | Symudiadau yn ystod y Flwyddyn £000 | Balans 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|---|
| Cronfa Bensiwn Wrth Gefn | 613 | 28 | 641 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy** | **613** | **28** | **641** |

| Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy | Balans 1 Ebrill 2020 £000 | Symudiadau yn ystod y Flwyddyn £000 | Balans 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|---|
| Cronfa Bensiwn Wrth Gefn | 407 | 206 | 613 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy** | **407** | **206** | **613** |

## 15.0 Nodiadau i'r Fantolen

### 15.1 Dyledwyr a Chredydwyr

### 15.1.1 Dyledwyr a Rhagdaliadau

Dangosir yr holl symiau a nodwyd fel asedau yn ôl gwerth (teg) y farchnad.

| | Net 1 Ebrill 2021 £000 | Gros 31 Mawrth 2022 £000 | Lwfans ar gyfer Lleihad mewn Gwerth £000 | Net 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn:** | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 58 | 97 | 0 | 97 |
| Awdurdodau Lleol ac Ysgolion | 114 | 3,907 | 0 | 3,907 |
| Rhagdaliadau | 22 | 0 | 0 | 0 |
| Dyledwyr Eraill | 101 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Dyledwyr** | **295** | **4,004** | **0** | **4,004** |

| | Net 1 Ebrill 2020 £000 | Gros 31 Mawrth 2021 £000 | Lwfans ar gyfer Lleihad mewn Gwerth £000 | Net 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn:** | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 158 | 58 | 0 | **58** |
| Awdurdodau Lleol ac Ysgolion | 0 | 114 | 0 | **114** |
| Rhagdaliadau | 0 | 22 | 0 | **22** |
| Dyledwyr Eraill | 0 | 101 | 0 | **101** |
| **Cyfanswm y Dyledwyr** | **158** | **295** | **0** | **295** |

### 15.1.2 Credydwyr

| | Balans ar 31 Mawrth 2022 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Credydwyr Byrdymor £000 | Grantiau Refeniw a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw £000 | Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw £000 | Cyfanswm y Credydwyr £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn:** | | | | |
| Llywodraeth Cymru | (840) | 0 | 0 | (840) |
| Awdurdodau Lleol ac Ysgolion | (2,336) | 0 | 0 | (2,336) |
| Credydwyr Eraill | (144) | 0 | 0 | (144) |
| **Cyfanswm y Credydwyr** | **(3,320)** | **0** | **0** | **(3,320)** |

| | Balans ar 31 Mawrth 2021 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Credydwyr Byrdymor £000 | Grantiau Refeniw a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw £000 | Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw £000 | Cyfanswm y Credydwyr £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn:** | | | | |
| Llywodraeth Cymru | (1,472) | (42) | 0 | (1,514) |
| Awdurdodau Lleol ac Ysgolion | (362) | 0 | 0 | (362) |
| Credydwyr Eraill | (182) | (650) | 0 | (832) |
| **Cyfanswm y Credydwyr** | **(2,016)** | **(692)** | **0** | **(2,708)** |

| Grantiau Refeniw a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | (42) | 0 |
| Balans ANG/CGA | (650) | 0 |
| **Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol Derbyniadau Grantiau Refeniw Ymlaen Llaw** | **(692)** | **0** |

**15.1.3 Dadansoddiad Pellach o'r Credydwyr Byrdymor**

| Dadansoddiad o'r Credydwyr Byrdymor | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|
| Y Grant Datblygu Disgyblion | (95) | (65) |
| Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol | (1,724) | (3,112) |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | (120) | 0 |
| **Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol y Grantiau Refeniw** | **(1,939)** | **(3,177)** |
| Y Tîm Canolog | (77) | (143) |
| **Cyfanswm y Credydwyr y mae Arian yn Ddyledus Iddynt 31 Mawrth** | **(2,016)** | **(3,320)** |

**15.2 Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod**

| | Balans 31 Mawrth 2021 £000 | Balans 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|
| Arian yn y Banc/Mewn Llaw | 3,135 | 951 |
| Arian a Ordynnwyd | 0 | 0 |
| **Cyfanswm yr Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod** | **3,135** | **951** |

**15.3 Rhwymedigaethau Digwyddiadol**

Dim.

### 15.4 Cronfa Bensiwn (Wrth Gefn)/Rhwymedigaeth y Gronfa Bensiwn

Mae'r Gronfa Bensiwn (Wrth Gefn)/Rhwymedigaeth y Gronfa Bensiwn yn ymwneud â Chynllun Pensiwn Dyfed (gweler nodyn 13.2.1), ac mae'n amsugno'r gwahaniaethau o ran amseru sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol ar gyfer rhoi cyfrif am fuddion ôl-gyflogaeth a buddion cyllido, a hynny'n unol â darpariaethau statudol.

Mae balans y ddyled ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn adlewyrchu'r diffyg ar adeg benodol rhwng y buddion a enillwyd gan gyflogeion blaenorol a chyflogeion presennol, a'r adnoddau o ran asedau'r gronfa bensiwn sy'n ofynnol i'w talu. Dylai'r trefniadau statudol ar gyfer rheoli'r Gronfa sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo pan fydd angen talu'r buddion.

| | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **407** | **613** |
| Tynnu'n ôl eitemau i'w priodoli i'r gwarged/diffyg o ran darparu gwasanaethau yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 386 | 46 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol eraill yn ystod y flwyddyn | (180) | (18) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **613** | **641** |

### 16.0 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Dechreuodd y 'Partneriaeth' newydd ar 1 Ebrill 2022, gyda chytundeb cyfreithiol newydd ar waith ar gyfer y tri awdurdod lleol partner. Deellir y bydd yr awdurdodau lleol eraill yn gwneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer y dyfodol.

Yn sgil archwiliad allanol, ac ar ôl ystyried a chymeradwyo Datganiad o Gyfrifon ERW ar gyfer 2021-22, bydd asedau a rhwymedigaethau ERW yn cael eu gweinyddu fel yr amlinellir uchod.